

# Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a Lara Date  
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Medi 2023 0300 200 6565  
Amser: 09.30 [SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

---

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30–11.40)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau  
(09.30)

2 Papurau i'w nodi  
(09.30)

2.1 Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 17 Mai 2023

(Tudalennau 1 – 4)

### Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad – 20 Mehefin  
2023

2.2 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023–24

(Tudalennau 5 – 7)

### Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth  
Leol – 23 Mehefin 2023



**2.3 Gwaith dilynol ar ôl sesiwn graffu gyffredinol ar waith y Gweinidog ar 21 Mehefin 2023**

(Tudalennau 8 – 11)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi – 24 Gorffennaf 2023

**2.4 Gwaith dilynol ar ôl sesiwn graffu gyffredinol ar waith y Gweinidog ar 21 Mehefin 2023**

(Tudalennau 12 – 14)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 26 Mehefin 2023

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 18 Gorffennaf 2023

**2.5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig**

(Tudalennau 15 – 18)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 30 Mehefin 2023

**2.6 Triniaethau Hadau Indrawn Porthiant**

(Tudalennau 19 – 20)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 4 Gorffennaf 2023 [Saesneg yn unig]

**2.7 Gweithgynhyrchu yng Nghymru – ymchwiliad undydd – 8 Mehefin 2023**

(Tudalennau 21 – 32)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi – 6 Gorffennaf 2023

Llythyr gan Weinidog yr Economi – 10 Awst 2023

## **2.8 Amserlen Ddrafft Cyllideb 2024–25**

(Tudalennau 33 – 35)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – 7 Gorffennaf 2023

## **2.9 Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol**

(Tudalennau 36 – 45)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Prif Weithredwr Dros Dro, Fferylliaeth Gymunedol Cymru – 4 Gorffennaf 2023 [Saesneg yn unig]

Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidogion Llywodraeth Cymru – 13 Gorffennaf 2023

Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – 28 Gorffennaf 2023

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Weinidogion Cymru – 9 Awst 2023

## **2.10 Bil Bwyd (Cymru): Ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor**

(Tudalennau 46 – 51)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 14 Gorffennaf 2023

## **2.11 Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol**

(Tudalennau 52 – 63)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 12 Gorffennaf 2023

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Brif Weinidog Cymru – 12 Gorffennaf 2023

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,  
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 7 Awst 2023

## **2.12 Gyrwyr HGV yng Nghymru**

(Tudalennau 64 – 66)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog yr Economi – 23 Gorffennaf 2023

Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd – 22 Awst 2023

## **2.13 Ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol: Gallu Datganoli yn Whitehall**

(Tudalennau 67 – 69)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a  
Materion Cyfansoddiadol, Tŷ'r Cyffredin – 11 Awst 2023

## **2.14 Cynllun Natur y Bobl**

(Tudalennau 70 – 75)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gynulliad Natur y Bobl – 16 Awst 2023 [dwyieithog]

Llythyr gan y Cadeirydd at Gynulliad Natur y Bobl – 25 Awst 2023

## **2.15 Cynllun Dychwelyd Ernes**

(Tudalennau 76 – 78)

### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru – 22 Awst 2023 [Saesneg yn  
unig]

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd – 4 Medi 2023

## **2.16 Model Gweithredu Targed y Ffin**

(Tudalennau 79 – 80)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi – 29 Awst 2023

## **2.17 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach ar 7 Medi**

(Tudalen 81)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Weinidog yr Economi – 5 Medi 2023

## **2.18 Memorandwa Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)**

(Tudalennau 82 – 86)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru – 5 Medi 2023

### **3 Bargaen Twf Canolbarth Cymru a Bargaen Ddinesig Prifddinas– Ranbarth Caerdydd**

(09.30–10.30)

(Tudalennau 87 – 119)

James Gibson–Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys

Nicola Williams, Rheolwr Cyflawni Rhaglen Strategol – Cydbwyllgor

Corfforaethol, Cyngor Sir Powys

Clive Davies, Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir

Ceredigion

Carwyn Jones–Evans, Rheolwr Gwasanaeth Twf, Cyngor Sir Ceredigion

Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Torfaen

Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Bargaen Ddinesig Prifddinas–Ranbarth Caerdydd

#### **Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Papur tystiolaeth – Bargaen Twf Canolbarth Cymru [Saesneg yn unig]

Papur tystiolaeth – Bargaen Ddinesig Prifddinas–Ranbarth Caerdydd [Saesneg yn unig]

### **Egwyl (10.30–10.40)**

### **4 Bargaen Ddinesig Bae Abertawe a Bargaen Twf Gogledd Cymru**

(10.40–11.40)

(Tudalennau 120 – 137)

Jonathan Burnes, Cyfarwyddwr Portffolio, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe

David Simpson, Arweinydd Cyngor Sir Penfro

Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd | Cadeirydd Bwrdd Uchelgais

Economaidd Gogledd Cymru

Hedd Vaughan–Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Uchelgais Gogledd Cymru

#### **Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth – Bargaen Ddinesig Bae Abertawe

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(11.40)

**Preifat (11.40–12.20)**

**6 Papur cwmpasu: Ymchwiliad i ynni niwclear ac economi Cymru**

(11.40–11.50)

(Tudalennau 138 – 142)

**Dogfennau atodol:**

Papur cwmpasu [Saesneg yn unig]

**7 Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023:**

**Diweddariad**

(11.50–12.00)

(Tudalennau 143 – 149)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

**8 Diweddariad ynghylch cytundebau masnach: Haf 2023**

(12.00–12.05)

(Tudalennau 150 – 157)

**Dogfennau atodol:**

Diweddariad ynghylch cytundebau masnach: Haf 2023

## **9 Trafod y Flaenraglen Waith: Gwanwyn 2024**

(12.05–12.15)

(Tudalennau 158 – 164)

### **Dogfennau atodol:**

Y Flaenraglen Waith ddrafft: Gwanwyn 2024 [Saesneg yn unig]

## **10 Ymweliad â Brwsel: Papur opsiynau**

(12.15–12.20)

(Tudalennau 165 – 170)

### **Dogfennau atodol:**

Ymweliad â Brwsel: Papur opsiynau [Saesneg yn unig]



Mick Antoniw AS/MS  
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution

Eitem 2.1



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/214/2023

Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

20 Mehefin 2023

### Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 17 Mai, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig** yn crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ('IMSC').

Rwyf wedi cadarnhau fel rhan o'r Datganiad hwnnw y bydd yr IMSC nesaf yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban, yn unol â threfniadau cylchdroi'r cadeiryddion. Byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau agenda tebygol, maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**Mick Antoniw AS/MS**  
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad  
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales](mailto:Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 1



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol  
**DYDDIAD** 20 Mehefin 2023  
**GAN** Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y  
Cyfansoddiad

Cynrychiolais Llywodraeth Cymru ym mhedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 17 Mai.

Cafodd [cyd-hysbysiad](#) (Saesneg yn Unig) ei gyhoeddi yn dilyn y cyfarfod, sy'n cynnwys manylion llawn y rhai eraill oedd yn bresennol. Ar yr agenda roedd: Cyflwyniadau; Parthau Buddsoddi; Rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth y DU gan gynnwys Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir; a'r Fframweithiau Cyffredin.

Fel y dywedir yn y cyd-hysbysiad, nodwyd gan y Pwyllgor y gwaith dadansoddi trawslywodraethol i bennu'r hyn sy'n ysgogi anweithgarwch economaidd ymhlith unigolion ynghyd â'r gwahaniaethau ledled y DU. Nodwyd hefyd y cydweithio ar draws y grwpiau rhyngweinidogol ar y pwysau costau byw. Pwysleisiais fod costau byw yn fater hanfodol bwysig i bob llywodraeth. Mae angen inni sicrhau bod y camau pellach angenrheidiol yn cael eu pennu a'u cyflwyno ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn gyflym. Dylai'r penderfyniadau hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd a busnesau, sy'n parhau i wynebu pwysau difrifol yn sgil chwyddiant a'r amodau economaidd ehangach heriol. Wrth i waith fynd rhagddo yn y maes hwn, pwysleisiwyd, oherwydd nad oes grŵp rhyngweinidogol ffurfiol sy'n gysylltiedig â phortffolio'r Adran Gwaith a Phensiynau, fod bwch yn strwythurau'r cysylltiadau rhynglywodraethol y cytunwyd arnynt ar y cyd. Gofynnais inni ystyried gyda'n gilydd sut y gallwn fynd i'r afael â'r bwch hwnnw.

Ar fater y Parthau Buddsoddi, roeddwn yn gwbl glir, fel yn achos y Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, fod rhaid i'r cynnydd ar agenda'r Parthau Buddsoddi gyd-fynd â'n hamcanion a'n blaenoriaethau presennol, a'r cyfeiriad cyffredinol a bennwyd yn ein Cenhadaeth Economaidd.

Ar fater Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, cydnabŵm fod gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil, sy'n golygu dileu'r cymal machlud ac na fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn mynd yn ddi-rym yn awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn mwyach felly, yn gam i'r cyfeiriad cywir. Bydd y

newidiadau yn golygu nad oes posibilrwydd y bydd deddfwriaeth bwysig mewn meysydd fel cyflogaeth, yr amgylchedd a diogelu defnyddwyr yn diflannu drwy amryfusedd a heb fod yn destun craffu gan y deddfwrfeydd. Fodd bynnag, mynegais unwaith eto ein pryderon ynghylch dull Llywodraeth y DU mewn perthynas â phwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd, a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd. Rwyf wedi bod yn gyson glir, os oes unrhyw bwerau sy'n arferadwy gan Weinidogion Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, yna dylent, fel gofyniad sylfaenol, fod yn amodol ar gael cydsyniad cadarnhaol Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, a dylid ymdrin â hyn ar wyneb y Bil.

Ar fater y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, codais y pwynt bod y ddarpariaeth ar gyfer pennu cenadaethau ffyniant bro, y metrigau a'r targedau cysylltiedig ac adrodd ar gynnydd yn Rhan 1 o'r Bil yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn parhau'n barod i weithio gyda Llywodraeth y DU ar Ran 6 o'r Bil. Fodd bynnag, dim ond os ydyn nhw'n ymrwymo i newid y dull presennol sy'n cynnwys pwerau cydredol ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth y DU – pwerau y gellir eu harfer heb gydsyniad Gweinidogion Cymru – y gallwn gyflawni hyn.

Dywedais unwaith eto fod y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) yn ymosodiad diangen ac annheg ar hawliau gweithwyr ac ar undebau llafur. Mae'n fyrbwyll, mae'n annoeth, mae'n annelwig. Ni fydd y Bil hwn yn datrys anghydfodau diwydiannol a gall suro'r berthynas rhwng diwydiannau ym mhob rhan o Brydain Fawr. Cadarnheais fod y Senedd wedi gwrthod rhoi ei chydsyniad i Fil sy'n osgoi yn fwriadol awdurdod ein Senedd yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Nid oes modd cyfiawnhau bod Llywodraeth y DU am orfodi'r Bil hwn ar gyflogwyr a gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

Ar fater Confensiwn Sewel, codais y pwynt bod achosion posibl o dorri'r Confensiwn sawl gwaith yn ystod y flwyddyn hon yn unig gan Lywodraeth y DU yn dangos ei hagwedd mor sylfaenol amharchus a dinistriol tuag at y Confensiwn, datganoli a'r Undeb. Yn syml, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros hyn ac nid yw'n gydnaws â'r gofyniad na ddylai Llywodraeth y DU 'fel arfer' ddeddfu heb gydsyniad. Pan nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad i Fil gan Lywodraeth y DU, mae angen i Lywodraeth y DU aildechrau dangos parch tuag at ddatganoli a gwrthdroi sefyllfa lle'r duedd erbyn hyn yw mynd ati i dorri Confensiwn Sewel.

Ar fater y Fframweithiau Cyffredin, nodais eu bod yn dangos bod gweithio rhynglywodraethol da yn bosibl ac y gellir rheoli cydlyniant ac ymwahanu drwy gynnal deialog adeiladol a chydweithio. Fodd bynnag, mae angen bod yn fwy cyson wrth ddefnyddio'r mecanweithiau y mae'r Fframweithiau Cyffredin yn darparu ar eu cyfer i ymgysylltu'n gynnar. Gofynnais i Lywodraeth y DU fynd ati'n bendant i gadarnhau'r pwynt hwnnw ymhlith y sawl sy'n gweithio iddi, ar lefel weinidogol a lefel yr uwch-swyddogion.

Trafododd y Gweinidogion hefyd y mater o ymgysylltu rhyngwladol, gan gynnwys pryderon ynghylch canllawiau diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i'w swyddfeydd tramor ar ymweliadau gan weinidogion y Llywodraethau datganoledig â'r gwledydd hynny. Cadarnheais na allem gytuno y dylai uwch-swyddog o Lywodraeth y DU fod yn bresennol ym mhob cyfarfod â gweinidogion llywodraethau tramor

fel mater o drefn. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolaeth o'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y dyfodol i drafod y mater hwn.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol nesaf yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban, yn unol â'r trefniadau cylchdroi cadeirydd.

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

23 Mehefin 2023

Annwyl Rebecca,

**Dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**

Yn ein hadroddiad ar graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, daethom i'r casgliad a ganlyn:

*“Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau.”*

Anfonwyd llythyr wedi hynny at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ar 8 Mawrth 2023, a oedd yn gofyn y cwestiwn hwn:

*“Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?”*

Cawsom ymatebion gan Gadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn ac mae'r holl ymatebion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Senedd:

- [Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith](#)
- [Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)
- [Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol](#)
- [Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai](#)
- [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol](#)
- [Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#)
- [Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig](#)



Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredin a meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau i broses y gyllideb. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

## Amseroldeb

Fel pwynt cyffredinol, nododd nifer o'r Pwyllgorau fod y duedd yn y blynyddoedd diwethaf o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan arwain at gwtogi amserlen y gyllideb, wedi'i gwneud yn heriol i asesu effaith y Gyllideb Ddrafft yn ystyrlon ar y meysydd polisi o fewn eu cylchoedd gwaith. Roedd rhai pwyllgorau o'r farn bod hwn yn wendid allweddol sy'n amharu'n sylweddol ar allu'r Pwyllgorau i ystyried cynigion cyllidebol yn fanwl.

## Tryloywder

Roedd llawer o'r Pwyllgorau yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei gwybodaeth yn y Gyllideb Ddrafft. Yn benodol, teimlai'r Cadeiryddion y dylid nodi'n glir effaith penderfyniadau cyllidebol ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor.

Mae hyn yn adleisio [Argymhelliad 13](#) yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real; ac
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

Mewn [ymateb](#), gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi:

*“Er ein bod wedi ymrwymo i wella sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau gwariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull o'r fath fod yn gymesur.*

*Rydym eisoes yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n cynnwys ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu yn y Senedd, ac sy'n rhoi cyfrif manylach ar sut y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol neu wedi ystyried materion megis atal. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant.*

*Rydym yn agored i ystyried newidiadau pellach y gellid eu gwneud fel rhan o waith y Cynllun Gwella'r Gyllideb.”*



## Ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai Cadeiryddion yn dweud nad oedd cyflwyniadau gweinidogion mor gynhwysfawr ag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Galwodd eraill hefyd ar adrannau Llywodraeth Cymru i ymateb yn llawn ac yn fanwl i gais ysgrifenedig pob Pwyllgor am dystiolaeth.

### Ymateb i argymhellion cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol

Yn olaf, roedd nifer o'r Pwyllgorau yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i argymhellion y Gyllideb Ddrafft ddigon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Roedd rhai Pwyllgorau yn teimlo hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro'r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Rydym yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar y materion hyn a'r ffaith eich bod yn agored i drafod newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i'r pryderon hyn gael eu hystyried cyn cylch cyllideb 2024-25.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd a grybwyllwyd uchod.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf/Our ref VG/00257/23

Paul Davies AS  
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd,  
CF99 1SN

24 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul Davies AS,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin, yn gofyn am ragor o wybodaeth am waith gyda Phartneriaeth Porth y Gorllewin, strwythurau Llywodraeth y DU, Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin.

O ran y cyfleoedd hydrogen sy'n gysylltiedig â Phorth y Gorllewin, rydym yn gwybod bod yr argyfwng hinsawdd yn golygu bod rhaid inni ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael inni i gyflymu'r cynnydd tuag at system ynni sero net. Rydym yn cynnal deialog rheolaidd â Phartneriaeth Porth y Gorllewin ar feysydd o weithgarwch ar y cyd ac roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn brif siaradwr yn ei chynhadledd hydrogen yn ddiweddar yn ICCW. Rydym hefyd yn gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i archwilio sut y gallwn gefnogi prosiect arddangos hydrogen sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth a gwresogi ardal.

Er ei bod yn dal i fod yn dechnoleg sy'n datblygu, mae priodweddau unigryw hydrogen yn golygu y gallai, ochr yn ochr â datblygiadau ynni adnewyddadwy helaeth, chwarae rhan gref wrth ddatgarboneiddio prosesau pŵer, trafnidiaeth a diwydiannol Cymru ac y gallai fod â rôl o ran darparu gwresogi carbon isel.

Mae'n hanfodol, wrth inni ddatblygu ein capasiti hydrogen, nad ydym yn cloi cenhedlaeth sy'n dibynnu ar ddefnydd parhaus o danwydd ffosil. Rydym am weld newid cyflym i hydrogen gwyrdd yng Nghymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Mae ein llwybr hydrogen yn nodi deg amcan sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu tymor byr sy'n ysgogi galw, cynhyrchu a chatau gweithredu trawsbynciol hyd at 2025. Maent hefyd yn nodi ffyrdd o gynllunio ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda o ran hydrogen a thechnolegau celloedd tanwydd.. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda phartneriaid yng Nghymru i gyflawni ein huchelgeisiau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 8**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



O ran strwythur yr Adran Busnes a Masnach, nid ydym wedi cael strwythur trefniadol manwl, ond mae gennym restr o gyfrifoldebau Gweinidogol, sef y rhain fel a ganlyn:

- Gweinidog dros Fasnach Ryngwladol - Gweinidog Huddleston
- Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd - Gweinidog Ghani (hefyd y Gweinidog dros Ddiogelwch Buddsoddiadau yn Swyddfa'r Cabinet)
- Gweinidog dros Fuddsoddi – yr Arglwydd Johnson
- Gweinidog dros Fenter, Marchnadoedd a Busnesau Bach - Gweinidog Hollinrake
- Gweinidog dros Allforio – yr Arglwydd Offord (Gweinidog yr Arglwyddi yn Swyddfa'r Alban hefyd)
- Gweinidog dros Ddiwygio Rheoleiddiol - Iarll Minto.

Rwyf wedi nodi rhestr fanylach o gyfrifoldebau yn atodiad A.

Mewn perthynas â Fframwaith Windsor, mae rhaglen is-ddeddfwriaeth i weithredu rhai darpariaethau yn y fframwaith, yn enwedig y Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu, yn cael ei harwain gan DEFRA gyda Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd yn arwain ar ran Llywodraeth Cymru. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.

Yn olaf, o ran Model Gweithredu Targed y Ffin, rydym yn disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach i Aelodau'r Pwyllgor cyn gynted ag y caiff hwnnw ei gyhoeddi, gan nodi'r hyn y mae'n ei olygu i nwyddau sy'n symud i Gymru o ynys Iwerddon. Byddaf hefyd yn gosod Datganiad Ysgrifenedig yn y Senedd.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**  
Gweinidog yr Economi  
Minister for Economy

## Atodiad A

Enw / Rôl	Cyfrifoldebau
<p>Nigel Huddleston AS</p> <p>Gweinidog dros Fasnach Ryngwladol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytundeb masnach rydd (FTA) cyffredinol a strategaeth mynediad i'r farchnad</li> <li>• Trafodaethau FTA</li> <li>• Cysylltiadau masnach dwyochrog</li> <li>• Osaka 2025 Expo</li> <li>• Polisi amlochrog</li> <li>• Rhwymedïau masnach</li> <li>• Tariffau ac anghydfodau</li> <li>• Uned Rheoli Allforio ar y Cyd</li> <li>• Cenhadon masnach</li> <li>• Gweithredu ac adolygu Cytundeb Masnach a Chydweithrediad (TCA) y DU-UE</li> <li>• Ymwneud â thiriogaethau dibynnol ar y goron a thiriogaethau tramor</li> <li>• Y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth</li> <li>• Awdurdod Rhwymedïau Masnach</li> </ul>
<p>Nusrat Ghani AS</p> <p>Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithgynhyrchu uwch</li> <li>• Modurol</li> <li>• Awyrofod</li> <li>• Cynaliadwyedd a Seilwaith</li> <li>• Dur</li> <li>• Deunyddiau</li> <li>• Y môr ac adeiladu llongau</li> <li>• Gwasanaethau proffesiynol a busnes</li> <li>• Cytundebau masnach rydd Canada a Mecsico</li> <li>• Diogelwch economaidd</li> <li>• Cyfraith yr UE a ddargedwir (diddymu a diwygio)</li> <li>• Sanctsiynau</li> <li>• Ailadeiladu Wcráin</li> <li>• Cadwyni cyflenwi byd-eang</li> <li>• Mwynau hanfodol</li> <li>• Amddiffyn masnach</li> <li>• Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol (IDAB)</li> </ul>
<p>Yr Arglwydd Dominic Johnson o Lainston CBE</p> <p>Gweinidog dros Fuddsoddi</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Strategaeth fuddsoddi</li> <li>• Hyrwyddo buddsoddiad ar draws pob sector</li> <li>• Rheoli'r berthynas â buddsoddwyr</li> <li>• Digwyddiadau buddsoddi (gan gynnwys Uwchgynhadledd Buddsoddi Byd-eang)</li> <li>• Sgrinio Buddsoddwyr DBT</li> <li>• Swyddfa Buddsoddi</li> <li>• Allforion amddiffyn a diogelwch</li> <li>• Deddfwriaeth fasnach yr Arglwyddi</li> </ul>
<p>Kevin Hollinrake AS</p> <p>Gweinidog dros Fenter,</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Busnesau bach a menter</li> <li>• Strategaeth ehangu</li> <li>• Mynediad at gyllid</li> </ul> <p>Tudalen y pecyn 10</p>

<p>Marchnadoedd a Busnesau Bach</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y farchnad lafur a hawliau cyflogaeth (gan gynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol)</li> <li>• Gwasanaethau Post (gan gynnwys y Post Brenhinol)</li> <li>• Polisi defnyddwyr a chystadleuaeth (gan gynnwys rheoli cymhorthdal)</li> <li>• Cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer cymwysterau proffesiynol</li> <li>• Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch</li> <li>• Ffyniant bro a thwf rhanbarthol</li> <li>• Llywodraethu corfforaethol a thryloywder</li> <li>• Archwilio ac ansolfedd</li> <li>• Lletygarwch</li> <li>• Manwerthu</li> <li>• Nwyddau defnyddwyr</li> <li>• Gofal personol</li> <li>• Swyddfa'r Post Cyfyngedig</li> <li>• British Business Bank</li> <li>• Comisiwn Cyflogau Isel</li> <li>• ACAS</li> <li>• Comisiynydd Busnesau Bach</li> <li>• Tŷ'r Cwmnïau</li> <li>• Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd</li> <li>• Gwasanaeth Cystadleuaeth</li> <li>• Y Gwasanaeth Ansolfedd</li> <li>• Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth</li> <li>• Pwyllgor Cyflafareddu Canolog</li> <li>• Swyddog Ardystio</li> <li>• Swyddfa Economeg y Gweithlu</li> <li>• Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol</li> <li>• Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser</li> <li>• Dyfarnwr y Cod Tafarnau</li> <li>• Cyngor Dilysnodi Prydain</li> <li>• Cyngor Adrodd Ariannol</li> <li>• Pwyllgor Polisi Rheoleiddio</li> </ul>
<p>Yr Arglwydd Offord o Garvel</p> <p>Gweinidog dros Allforio</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu a hyrwyddo strategaeth allforio ar draws pob sector</li> <li>• Cefnogi busnesau bach a chanolig (BBaCh) i allforio</li> <li>• Gwasanaeth Cymorth Allforio</li> <li>• Teithiau masnach a sioeau masnach</li> <li>• Defnyddio cytundeb masnach rydd (FTA)</li> <li>• Darparu buddsoddiad uniongyrchol allanol</li> <li>• Ymgyrch Gwnaed yn y DU, Gwerthu i'r Byd</li> <li>• Marchnad Fewnol y DU a'r Undeb</li> <li>• Bwrdd Masnach</li> <li>• Cyllid Allforio y DU</li> </ul>
<p>Iarll Minto</p> <p>Gweinidog dros Ddiwygio Rheoleiddiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygio rheoleiddio trawslywodraethol</li> <li>• Gwell rheoleiddio</li> <li>• Deddfwriaeth busnes yr Arglwyddi</li> <li>• Pob Bil Aelod Preifat</li> <li>• Materion corfforaethol</li> </ul>

# Eitem 2.4

**Pwyllgor yr Economi,  
Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade and  
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddEconomi@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddEconomi  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddEconomy@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddEconomy  
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a  
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

26 Mehefin 2023

Annwyl Lesley,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mehefin. Roedd yr Aelodau'n bwriadu trafod y defnydd o Brynu Gwybodus Gorfodol (MIP) i leihau TB Buchol gyda chi; fodd bynnag, ni chyrrhaeddwyd y cwestiynau hyn oherwydd cyfyngiadau amser.

A fyddech cystal â rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch Prynu Gwybodus Gorfodol. Mae gan yr Aelodau ddiddordeb arbennig mewn unrhyw gydgyssylltu posibl â Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno mesurau tebyg yn Lloegr, ac unrhyw gamau y gallech fod yn eu cymryd i sicrhau dull gweithredu cyson ledled y DU.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg





Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[SeneddEconomy@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomy@senedd.cymru)

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 26 Mehefin yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Yn ôl y gofyn, rwyf wedi amlinellu ein safbwynt isod ar gyfer gwneud Prynu Gwybodus yn orfodol.

Roedd dwy agwedd ar Brynu Gwybodus yn rhan o ymgynghoriad Tachwedd 2021, sef:

- Cyhoeddi gwybodaeth am fuchesi sy'n rhydd o TB ar [ibTB](#); ac
- Ei gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth am TB yn y man gwerthu.

Helpodd canlyniad yr ymgynghoriad i lywio ein [Cynllun Cyflawni TB](#) newydd, a lanswyd ym mis Mawrth.

Ein nod yw cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu system Prynu Gwybodus orfodol, galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau gwybodus yn y man gwerthu, gan wneud hynny mewn ffordd gyson. Bydd system orfodol hefyd yn galluogi milfeddygon i ddysgu mwy am darddiad gwartheg a brynwyd pe bai achosion o TB yn dod i'r amlwg.

O ystyried y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth y gwaith o'i gwneud yn orfodol i ddarparu ac arddangos gwybodaeth yn y man gwerthu, ac er mwyn sicrhau cysondeb drwy Gymru a Lloegr, bydd angen ymgysylltu rhagor â Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y goblygiadau posibl i geidwaid pe na baent yn dilyn egwyddorion prynu gwybodus. Ar ôl i'r ymgysylltu hwn ddod i ben, byddwn yn rhannu cynllun ac amserlen fanwl.

Mae fy swyddogion yn parhau i chwilio am ffyrdd i ehangu galluoedd ibTB a'i ddefnydd posibl mewn cynllun Prynu Gwybodus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu lle gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd swyddogion hefyd yn defnyddio'r Grŵp Cyngori Technegol (TAG) newydd ar TB Gwartheg, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, i ofyn am ei farn a'i arbenigedd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Ein cyf/Our ref: MA/RE/0660/23(2)

Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN  
[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)  
[Swyddfa.breifaf@senedd.cymru](mailto:Swyddfa.breifaf@senedd.cymru)

30 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

## **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu Annomestig**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r argymhellion a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil). Gofynnodd y Pwyllgor am ymateb i Argymhelliad 2 o fewn 10 diwrnod gwaith. Hoffwn achub ar y cyfle i ymateb i argymhellion eraill y Pwyllgor ar yr un pryd.

***Argymhelliad 1: Rydym o'r farn bod y cymalau o'r Bil a'r Atodlen i'r Bil a nodir yn y Memorandwm o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.***

Rwy'n croesawu cadarnhad y Pwyllgor ei fod yn cytuno â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y bydd angen cael cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

***Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog egluro a rhoi rhagor o fanylion i'r Senedd ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt fel ei bod bellach yn fodlon ar y pwerau dirprwyedig yng nghymal 13 ac ym mharagraffau 49 a 50 o'r Atodlen i'r Bil. Dylai'r Gweinidog ddarparu'r eglurhad a'r manylion hyn o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, neu dylai gwybodaeth o'r fath gael ei nodi yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol nesaf a gyflwynir gerbron y Senedd, pa un bynnag sydd gynharaf.***

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)  
[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gyntaf, hoffwn egluro nad yw Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt. Ar adeg cyhoeddi'r Memorandwm, roeddem yn ystyried ein safbwynt, fel y nodwyd yn y Memorandwm.

Mae'r mater hwn yn gymhleth, gyda maes polisi datganoledig a swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl sy'n gysylltiedig yn fwriadol, er mwyn galluogi rhywbeth newydd ac arloesol. Dim ond Cyllid a Thollau ei Fawrhydi (CThEF) sy'n gallu darparu'r rhaglen *Digideiddio Ardrethi Busnes* i Gymru, am fod y rhaglen yn dibynnu ar rannu a chysylltu gwybodaeth a gedwir gan CThEF am ardrethi nad ydynt wedi'u datganoli, yn ogystal â gwybodaeth am ardrethi annomestig. O ganlyniad, byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud o dan y pwerau sydd wedi'u dirprwyo i Gomisiynwyr CThEF yn cael effaith uniongyrchol ar y swyddogaethau a roddir gan y Bil i CThEF, ac yn newid y gofynion a roddir ar dalwyr ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r opsiynau i sicrhau y gellir darparu'r rhaglen *Digideiddio Ardrethi Busnes* yng Nghymru yn galw am gyfaddawd, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

At ei gilydd, o ystyried y gwahanol ffactorau hyn a chyd-destun y darpariaethau penodol, rwyf wedi casglu bod y pwerau dirprwyedig a'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn briodol er mwyn hwyluso'r gwaith o weinyddu'r system *Digideiddio Ardrethi Busnes*, y mae angen iddo weithredu mewn modd cyson ledled Cymru a Lloegr. Mae'r pwerau hyn yn gyfyngedig ac nid oes angen eu harfer er mwyn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol a amlinellir yn y Bil ar waith. Dim ond pan ystyrir bod angen gwneud newid gweinyddol perthnasol er mwyn sicrhau bod CThEF yn rhedeg y rhaglen *Digideiddio Ardrethi Busnes* yn effeithiol y byddant yn cael eu defnyddio.

Ni ragwelir y bydd angen, nac awydd, i ddeddfu'n wahanol o dan y pwerau dirprwyedig mewn perthynas â Chymru. At hynny, byddai'r posibilrwydd o ddefnyddio dull amgen yn arwain at risg na fyddai'r system yn gweithredu mewn modd effeithiol na chyson. Drwy weithredu fel hyn, gellir sicrhau y bydd modd cyflawni nodau'r rhaglen *Digideiddio Ardrethi Busnes* a gwireddu'r manteision a fwriedir yng Nghymru.

***Argymhelliad 3: Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru yn chwilio am opsiynau i ddefnyddio deddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Senedd i geisio newid y weithdrefn graffu ar gyfer rheoliadau a wnaed o dan baragraff 5(13A) yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.***

Gallaf gadarnhau, wrth bennu'r ffordd orau ymlaen, fod Llywodraeth Cymru wedi gweld nad oedd cyfrwng deddfwriaethol Seneddol a fyddai'n addas i fynd i'r afael â'r mater hwn o fewn yr un terfyn amser, ac na fyddai modd creu cyfrwng o'r fath heb gael effaith niweidiol anghymesur ar ein rhaglen deddfwriaethol ehangach.

***Argymhelliad 4: Dylai'r Gweinidog nodi'n fanwl, gan ddefnyddio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2022 a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 fel enghreifftiau ymarferol, yr heriau ymarferol a'r effeithiau negyddol o ran gwaith craffu'r Senedd yn sgil y weithdrefn bresennol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan baragraff 5(13A) yn Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.***



Hoffwn gadarnhau yn gyntaf fod y Pwyllgor yn gywir nad oedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) yn cyflwyno nac yn newid y weithdrefn hon. Yn lle hynny, fe gadwodd y weithdrefn a oedd eisoes wedi ei sefydlu, sy'n gyson â'r weithdrefn sy'n gymwys yn Lloegr. Mae sylw wedi cael ei dynnu at yr heriau ymarferol a'r cyfyngiadau o ran amseru ers i Ddeddf 2021 gael ei datblygu a'i chyflwyno (ar 18 Tachwedd 2019). Mae hefyd yn wir na fydd cyfyngiadau o'r fath ar y pŵer cyfatebol sydd gan Lywodraeth y DU bellach, yn sgil y Bil. Mae hyn yn berthnasol am fod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar osod y lluosydd yn ei Datganiadau Hydref, ac unrhyw gyllid canlyniadol perthnasol, yn arwain at oblygiadau ar gyfer ystyriaethau polisi a chyllidebu Llywodraeth Cymru. Os bydd cyfyngiadau ar ein gallu i arfer y pŵer hwn nad ydynt yn effeithio ar Lywodraeth y DU yn yr un modd, yng nghyd-destun y rhyngddibyniaethau hyn ac amserlen dynn ar gyfer gwneud rheoliadau, gallai hyn beryglu'r defnydd effeithiol ohono. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Datganiadau Hydref Llywodraeth y DU wedi bod yn cael eu gwneud braidd yn hwyr yng nghylch y gyllideb: gallai hyn gulhau'r amser sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y defnydd o gyllid canlyniadol ac ar gyfer gwneud rheoliadau.

Mae'r cyfyngiadau presennol ar amser yn creu cysylltiad rhwng rheoliadau a chyfrifiadau ar y lluosydd, a gwaith y Senedd i ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol am y flwyddyn. Nid yw rheoliadau'n effeithiol oni bai eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd *cyn* iddi gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol am y flwyddyn, neu cyn 1 Mawrth (pa un bynnag sydd gynharaf). Fodd bynnag, nid yw cyfrifiad terfynol y lluosydd gan Weinidogion Cymru yn ddilys oni bai ei fod yn cael ei wneud *ar ôl* i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol neu ar ôl 1 Mawrth. Mae'r angen hwn i ddibynnu ar pryd y mae'r Senedd yn ystyried yr adroddiadau cyllid llywodraeth leol yn creu “targed symudol” mewn cysylltiad â gosod y lluosydd.

Os yw amserlen y Senedd yn pennu y bydd yn ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol yn fuan ar ôl Datganiad Hydref Llywodraeth y DU a Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru (naill ai am fod y cyllidebau'n hwyrach na fel arfer, neu fod yr adroddiad yn gynharach), bydd ond ychydig iawn o amser i lunio rheoliadau, ac mae'n bosibl bydd yr amser craffu yn fyrrach o ganlyniad i hynny. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd y byddai canlyniad o'r fath yn codi mewn cysylltiad â'r rheoliadau a effeithiodd ar osod y lluosydd ar gyfer 2020-21. Yn yr achos hwn, trefnwyd yn wreiddiol y byddai'r Senedd yn ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol ar 19 Rhagfyr 2019. Felly mae'r rheoliadau hyn yn enghraifft well o sut y gallai'r mater penodol y cyfeirir ato yn yr argymhelliad hwn godi. Ym mis Rhagfyr 2019, roedd Deddf 2021 eisoes wedi cael ei gyflwyno gerbron y Senedd. Dylid nodi bod Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2019 wedi arwain yn y pen draw at oedi'r amser ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar yr adroddiad cyllid llywodraeth leol a rheoliadau'r lluosydd.

Fel arall, os yw amserlen y Senedd yn pennu y bydd yn ystyried yr adroddiad cyllid llywodraeth leol yn nes o lawer at ddechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, gall hyn ganiatáu ddigon o amser ar gyfer llunio a chraffu ar reoliadau cyn y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, am na ellir cyfrifo'r lluosydd terfynol tan ar ôl y dyddiad hwnnw (neu 1 Mawrth os yw'n gynharach), mae hyn yn arwain at oedi diangen o ran rhoi eglurder i awdurdodau bilio a thalwyr ardrethi yng Nghymru. Gwelwyd yr effaith hon ar y rheoliadau penodol y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad hwn, am fod y Senedd wedi ystyried yr adroddiadau cyllid llywodraeth leol perthnasol ar 1 Mawrth 2022 a 28 Chwefror 2023.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod y Senedd yn cael cyfle cyson i wneud gwaith craffu, cyn i unrhyw reoliadau gael eu gwneud, ac yn lleihau'r risg o oedi o ran bilio. Bydd awdurdodau lleol a thalwyr ardrethi yng Nghymru yn cael eglurder mor gynnar â phosibl ac ni fyddant o dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth fanwl o'r Memorandwm a gobeithiaf fod yr ymatebion a roddwyd gennyf i'r argymhellion yn darparu'r eglurder pellach y gofynnwyd amdano.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Lesley Griffiths AS/MS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/PO/230/23

Paul Davies MS  
Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee

SeneddEconomy@senedd.wales

4<sup>th</sup> July 2023

Dear Paul,

Thank you for your letter of 5 June 2023, regarding forage maize seed treatments and including correspondence from Dr Julian Little on the issue.

Prior to EU exit, pesticides legislation allowed for seed treated with a plant protection product to be imported, marketed and used in the UK as long as it had been authorised in at least one other Member State. After EU exit, transitional arrangements were put in place to continue the import and use of seeds treated in the EU. This was to provide continuity for seed users and give industry the opportunity to apply for the relevant authorisations in Great Britain.

This three-year transitional period expires on 31 December 2023. From 1 January 2024, all plant protection product seed treatments must be authorised for use in Great Britain. Over the transitional period the Health and Safety Executive (HSE) has met with industry to highlight the actions they need to take to enable these seed treatments to continue to be available from 1 January 2024.

I acknowledge the concerns farmers and growers have with the end of the transitional period is approaching. My officials are in contact with their counterparts in HSE and DEFRA to monitor the impact of this change. Applications for authorisations must come from plant protection product companies to be assessed for use in Great Britain. I would advise farmers, growers and other seed users to engage with their suppliers and representatives. Officials in HSE are continuing to work collaboratively with industry and provide advice on regulatory avenues for different products.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 19

I hope this information is useful to the Committee

Regards,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping 'L' and 'G'.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Vaughan Gething AS  
Gweinidog yr Economi

6 Gorffennaf 2023

## Gweithgynhyrchu yng Nghymru – ymchwiliad undydd

Annwyl Vaughan,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin i drafod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector gweithgynhyrchu a'r Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu ar ei newydd wedd.

Yn dilyn tair sesiwn panel archwiliadol, cytunodd yr Aelodau y byddwn yn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth.

Yn gyntaf, diolch am gynnig darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am bob un o'r pwyntiau gweithredu yn y cynllun gweithredu gweithgynhyrchu ar ei newydd wedd, gan nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni pob un, ynghyd â 'pherchennog arweiniol'.

Cytunwyd hefyd y byddwn yn ysgrifennu i ofyn am atebion i gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn. Roedd gan yr Aelodau gwestiwn i'r holl dystion yn ymwneud â monitro effaith y cynllun, gan nodi bod y cynllun gweithredu ar ei newydd wedd yn datgan "wrth symud ymlaen, bydd cyfraniad y sector gweithgynhyrchu [...] yn cael ei olrhain drwy ein **Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol**. Ond nid yw hyn yn ddigon." Gofynnwyd i dystion mewn sesiynau panel diweddarach pa waith pellach yr oeddent yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i ddatblygu dull mwy manwl o fonitro effaith y cynllun.

Tynnodd tystion sylw at bwysigrwydd bod y cynllun gweithgynhyrchu yn cyd-fynd â chynlluniau cysylltiedig eraill, megis y Cynllun Sgiliau Sero Net, y Strategaeth Arloesi a strategaeth economaidd drosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Nododd Make UK, o edrych arnynt gyda'i gilydd, y gellid gweld bod rhai bylchau amlwg yn y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn cael eu llenwi gan gamau gweithredu yn y cynlluniau eraill hynny. Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd nad



oedd unrhyw gyfeiriad yn y cynllun gweithgynhyrchu at strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ffyrdd, cludo nwyddau a logisteg, a seilwaith yn fwy cyffredinol, a nododd sawl tyst fod hynny'n hollbwysig i ddyfodol y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. Cydnabu David Hoare o GE Aerospace, fel y nodwyd yn y cynllun, fod dangosyddion llesiant yn hytrach na thargedau economaidd yn unig yn debygol o fod yn fesurau llwyddiant pwysig i Lywodraeth Cymru. Felly, mae'n bwysicach fyth cael dealltwriaeth glir ar y cyd o sut y caiff llwyddiant ei fesur.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech ymateb i'r pwyntiau hyn drwy amlinellu sut y byddwch yn sicrhau eglurder ynghylch sut y mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu yn cyd-fynd â chynlluniau a strategaethau cysylltiedig eraill; a thrwy roi mwy o fanylion am sut y byddwch yn mesur, monitro a gwerthuso'r effaith ar y sector gweithgynhyrchu.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar pe gallech nodi pa waith a wnaed ers 2021 mewn perthynas â'r pwynt gweithredu yn y cynllun gweithredu gweithgynhyrchu cychwynnol i "ddeall y math o gymorth busnes sydd ei angen ar weithgynhyrchu yng Nghymru" a pha newidiadau a wnaed o ganlyniad i hynny. Nodwyd hyn yn 2021 fel blaenoriaeth uniongyrchol.

Mae'r diweddariad ar y pwynt gweithredu hwn, a ddarparwyd ym mhwynt 58 yn eich papur ar gyfer y cyfarfod, yn cyfeirio at gymorth a ddarparwyd gan Busnes Cymru ers 2016 a lansiad Cronfa Dyfodol yr Economi yn 2018 – sydd ill dau'n dyddio cyn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer 2021.

Yn olaf, mae un o'r camau gweithredu yn y cynllun ar ei newydd wedd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn "rhoi ein cymorth busnes ar gyfer gweithgynhyrchu ar waith o amgylch nifer o gynhyrchion critigol wedi'u targedu sy'n arwyddocaol yn strategol i ffyniant hirdymor Cymru". Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe gallech roi eglurhad manwl o sut y caiff y 'cynhyrchion hanfodol' hyn eu nodi a sut y mae'r dull hwn yn debygol o effeithio ar y cymorth a ddarperir i'r sector gweithgynhyrchu.

Diolch unwaith eto am ymuno â'r Aelodau ar gyfer yr ymchwiliad undydd archwiliadol hwn. Mae'r [trawsgrifiad](#) a'r linc i [Senedd TV](#) ar gael ar ein gwefan i chi a'ch swyddogion weld beth oedd gan dystion eraill i'w ddweud.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb, ac at ddeialog barhaus am ddyfodol gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig



**Senedd Cymru**  
**Welsh Parliament**

**Tudalen y pecyn 22**



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref VG-PO-0274-23

Paul Davies AS  
Cadeirydd,  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

10 Awst 2023

## Gweithgynhyrchu yng Nghymru – ymchwiliad undydd

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 6 Gorffennaf yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 8 Mehefin i drafod gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor wedi'u nodi isod.

### **Beth sy'n cael ei wneud i nodi amserlen glir ar gyfer cyflawni'r pwyntiau gweithredu gyda 'pherchennog arweiniol' a nodwyd'?**

Roedd yr amserlen ddeng mlynedd a nodwyd yn y Cynllun cyntaf yn 2021 yn arwydd ac yn adlewyrchu natur, graddfa, cymhlethdod a rhyngddibyniaeth hirdymor llawer o'r gweithredoedd. Rhagwelwyd erioed y byddai angen adolygu'r Cynllun o bryd i'w gilydd i ystyried newidiadau yn y dirwedd leol, genedlaethol a byd-eang. Ers ei gyhoeddi mae'r sector wedi wynebu heriau mawr: cystadleuaeth fyd-eang, trefniadau masnachu newydd gyda'r Undeb Ewropeaidd, adfer wedi COVID-19, argyfwng hinsawdd, cost gynyddol ynni, oedi oherwydd problemau morgludo sydd wedi tarfu ar gadwyni cyflenwi byd-eang, prinder mewn deunyddiau crai, cynnydd mewn prisiau a phroblemau difrifol o ran sicrhau bod llafur ar gael.

Pan gyhoeddwyd y Cynllun gennym ar y cychwyn, nodwyd perchennog arweiniol ac amserlen ar gyfer pob un o'r camau. Fodd bynnag, mewn trafodaethau â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r diweddariad, gwelwyd bod hyn weithiau'n ddryslyd i gynulleidfa allanol wrth i unigolion, timau a strwythurau cyflawni newid dros amser. O'r herwydd, ni chafodd yr wybodaeth hon ei chynnwys yn y Cynllun diwygiedig i helpu i symleiddio ymgysylltiad trwy brif adran arweiniol y polisi. Fodd bynnag, fel y Cynllun cychwynnol, mae gan bob cam gweithredu amserlenni perchnogaeth a darpariaeth clir o hyd, gyda phob arweinydd hefyd yn aelod o'r Grŵp Cyflawni. Caiff hyn ei gadeirio ar lefel Uwch Wasanaeth Sifil gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Diwydiannol a'r Economi Sylfaenol ac mae'n gyfrifol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 23**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

am weithredu'r Cynllun a chydlynu gweithgareddau priodol yn effeithiol yn unol â'r amcanion strategol ar draws yr holl adrannau perthnasol. Rwyf wedi cynnwys hyn er gwybodaeth yn Atodiad 1.

## **Beth sy'n cael ei wneud i fonitro effaith y cynllun a chreu cysylltiad clir gyda chynlluniau eraill?**

Ar lefel strategol, mae'r chwe amcan yn y Cynllun yn nodi gweledigaeth glir o'r cyfeiriad yr ydym am fynd a sut rydym am i sector gweithgynhyrchu'r dyfodol edrych. Mae'r cynllun yn amlweddol ac mae'n cynnwys amrywiaeth o gynlluniau, rhaglenni, prosiectau a gweithgareddau ehangach cysylltiedig sy'n chwarae rhan wrth wireddu'r weledigaeth hon. Mae gan lawer ohonynt eu hamserlenni, cerrig milltir a metrigau ar wahan eu hunain yr adroddir arnynt yn unigol a rôl allweddol y Grŵp Cyflawni yw dwyn ynghyd yr arweinwyr ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn i gydweithio a chwilio am gyfleoedd i sicrhau'r effaith gyfunol fwyaf posibl yn erbyn pob un o'r chwe nod. Mae hyn yn cynnwys, (ond nid yw'n gyfyngedig i):

- Strategaeth Sero Net Cymru
- Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net
- Cyllideb Garbon 2 (2021-25)
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
- Cymru'r Dyfodol – Cynllun cenedlaethol 2040
- Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru | LLYW.CYMRU
- Dyfodol Disglair | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)
- Cymru'n Gweithio
- Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach
- Strategaeth Ddigidol i Gymru
- Cymraeg 2050 Strategaeth y Gymraeg
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru | LLYW.CYMRU
- Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol - Cwmpas
- Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru

Yn ogystal â monitro'r gweithgareddau penodol, mae'n bwysig ein bod yn gallu llunio barn wybodus ynghylch a yw'r Cynllun yn cyflawni'n llwyddiannus ar gyfer y sector gweithgynhyrchu yn unol â'r chwe nod a'n diffiniad o weithgynhyrchu 'Gwerth Uchel' sy'n cael effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cadarnhaol. Mae hyn yn golygu na allwn ddiffinio 'cynnydd' yn syml o ran creu swyddi neu gynyddu gwerth ychwanegol gros. Mae'n rhaid i ni ystyried sut mae gweithgynhyrchu fel sector yn cyfrannu at ein dyheadau cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod hyn yn wir yn anoddach, rydym wedi ymrwymo o fewn y Cynllun i ddatblygu mecanwaith i wneud hyn ac rydym eisoes wedi comisiynu darn o waith sy'n datblygu dull o fonitro cynnydd, wedi'i ategu gan feincnodi yn erbyn arfer gorau byd-eang. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r chwe nod fel rhan o ddeialog ragweithiol a chyson gyda diwydiant a phartneriaid ehangach i sicrhau ein bod nid yn unig yn parhau i fonitro cynnydd ond yn parhau i ganolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf.

## **Pam nad oes cyfeiriad yn y cynllun gweithgynhyrchu at y strategaeth ar gyfer ffyrdd, cludo nwyddau a logisteg, a seilwaith yn fwy cyffredinol?**

Yr ail Nod Strategol yw "datblygu'r amodau i angori cwmnïau gweithgynhyrchu allweddol yng Nghymru, gan gynnwys darparu seilwaith modern a chadwyni cyflenwi cadarn". Mae



hyn yn cydnabod rôl hanfodol seilwaith o ran bod yn alluogwr i gyflawni ein dyheadau, cefnogi diwydiant a pheidio â'i gyfyngu.

Mae'r Cynllun yn cyfeirio'n benodol at Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, '[Llwybr Newydd](#)' sy'n nodi ein dull gweithredu o ran sut rydym yn galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws trwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.

Rydym hefyd yn tynnu sylw at enghreifftiau eraill fel seilwaith gwefru Digidol, Cerbydau Trydan a'n Cynllun Cyflawni Eiddo sydd eisoes wedi darparu dros 800,000 troedfedd sgwâr o safleoedd masnachol newydd, gyda 125 erw o safleoedd sy'n barod ar gyfer buddsoddi naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill trwy gyfuniad o ymyrraeth uniongyrchol, cymorth grant i'r sector preifat a chydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Hefyd, cyfeirir at ein dull strategol o gynllunio yng Nghymru hefyd drwy Gymru y Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru.

### **Pa waith sydd wedi'i wneud ers 2021 mewn perthynas â'r camau gweithredu "deall y math o gymorth busnes sydd ei angen ar weithgynhyrchu Cymru" a pha newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad?**

Cafodd y Cynllun cychwynnol ei ategu gan yr wybodaeth a gasglwyd trwy broses ymgynghori ffurfiol a lywiodd themâu allweddol mewn meysydd fel Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Datblygu, Ymchwil ac Arloesi, Sgiliau, Angori, Technoleg a Datgarboneiddio. Wrth ddatblygu'r adnewyddiad, ailedrychwyd ar y rhain drwy gael mwy o ymgysylltu â diwydiant, Undebau Llafur a phartneriaid cymdeithasol ehangach a chynnal arolwg 'gwirio iechyd' o'r sector gyda chefnogaeth Diwydiant Cymru a Make UK. Comisiynwyd yr arolwg yn benodol i edrych ar yr 16 thema yn y Cynllun cychwynnol, gan ganolbwyntio ar alluoedd, patrymau gwerthu, heriau, diwylliant ac ymddygiad busnesau. Roedd hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys dadansoddi sefyllfa a thueddiadau cyfredol mewn meysydd fel ynni, cadwyni cyflenwi, sgiliau a thechnolegau digidol Diwydiant 4.0.

Mae'n bwysig cydnabod bod MAP yn gysylltiedig ag edrych ar yr hyn sydd ei angen ar y sector i ffynnu a sicrhau bod gennym y gefnogaeth gywir ar waith. Mae hyn yn golygu cael y gwerth mwyaf posibl o'r cymorth rydym eisoes yn ei gynnig ac ychwanegu cymorth ychwanegol dim ond pan fo bwlch / angen clir. Er enghraifft. Mae ein Prosiect Partneriaeth Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP) yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion ein cwmnïau gweithgynhyrchu trwy eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau y maent wedi'u nodi. Mae astudiaeth achos wych yn y Cynllun gan Energizer Auto UK ynghylch sut maen nhw wedi defnyddio FSP i elwa'n fawr.

Nododd yr arolwg hefyd bwysigrwydd lleihau ynni a chynyddu cynhyrchiant ac mae Rhaglen Clystyrau Darbodus Toyota yn enghraifft o ble rydym yn ymateb i hyn, gyda mwy na 60 o gwmnïau wedi elwa hyd yma o weithredu egwyddorion Darbodus. Cwmnïau fel Rotothem sydd wedi gweld cynnydd syfrdanol o 300% mewn allbynnau oherwydd arbedion amser mewn strwythurau cynhyrchu a sefydliadol, a gostyngiad o 50% mewn diffygion. Fe wnaeth Banc Datblygu Cymru hefyd lansio'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd ym mis Chwefror eleni, gyda benthyciadau o £1000 i £1.5m i gefnogi ein taith i Sero Net. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy, uwchraddio seilwaith ffisegol a lleihau gwastraff. Yn ddiweddar fe wnaethom hefyd lansio ein cynllun Cymorth Arloesi Hyblyg newydd a'r Gronfa Economi Gylchol a fydd yn ategu'r cymorth arbenigol presennol sydd ar gael drwy Busnes Cymru.

Mae enghreifftiau eraill o alinio ein cymorth i gyflawni ein dyheadau o fewn y Cynllun, megis cyflwyno'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol sy'n seiliedig ar wersi a ddysgwyd o Gronfa Her yr Economi Sylfaenol. Mae cyflenwyr bwyd lleol yn cael eu cefnogi gyda chyllid i dalu am gostau achrediad diogelwch hylendid bwyd ac mae gwaith wedi'i wneud yn y sector tai i gysylltu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs) â busnesau lleol.

Mae AMRC Cymru yn parhau i ymateb yn uniongyrchol i anghenion ein cwmnïau gweithgynhyrchu, gan feithrin mwy o ymchwil cydweithredol ac ymgorffori technolegau Diwydiant 4.0. Mae AMRC wedi cefnogi rhaglen technoleg adenydd y dyfodol Airbus sydd gyda'r gorau yn y byd a thros 30 o fusnesau bach a chanolig ar draws 16 o brosiectau. Mae rhaglen galluogi digidol fawr ar gyfer busnesau bach a chanolig ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn cefnogi 60 o weithgynhyrchwyr eraill dros y 18 mis nesaf. Un enghraifft yw'r prosiect 'Ffatri 4.0' sy'n brosiect ar y cyd rhwng AMRC Cymru, Airbus a chwmnïau bwyd a diod Cymru (The Pudding Compartment a Hensol Distillery), gan ddefnyddio offer digidol i greu 'ffatri'r dyfodol', gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a lleihau costau ynni ac ôl troed carbon i gyflawni'r rhaglen BITES a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth gwerth £2m gan Lywodraeth Cymru i sefydlu Canolfan Cynaliadwyedd Pecynnu Bwyd a Diod a fydd yn dod yn ganolbwynt ar gyfer manteisio ar dechnolegau a deunyddiau newydd yn y gadwyn gyflenwi pecynnu bwyd a diod.

### **Sut fydd Llywodraeth Cymru yn “Dechrau ein cymorth busnes ar gyfer gweithgynhyrchu nifer o gynhyrchion hanfodol wedi'u targedu sy'n arwyddocaol yn strategol i ffyniant hirdymor Cymru”?**

Mae'r arolwg 'gwirio iechyd' wedi helpu i nodi meysydd lle bydd angen i ni sicrhau bod y cymorth cywir ar gael i ddiwydiant. Yn ogystal â hynny, mae'r Cynllun diwygiedig yn amlinellu ein bwriad i feincnodi yn erbyn meysydd o arfer gorau sy'n cyd-fynd â'n chwe nod strategol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth bellach i ba gynhyrchion fydd yn hanfodol i Gymru wrth symud ymlaen, yn enwedig mewn meysydd lle gwelwn gyfle go iawn i Gymru ennill mantais gystadleuol. Mae'r Cynllun eisoes yn nodi lle rydym yn bwrw ymlaen â gweithgarwch sydd â chynhyrchion clir a fydd yn hanfodol i lwyddiant. Er enghraifft, Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i wella effeithlonrwydd ynni stoc dai Awdurdodau Lleol lle rydym yn defnyddio dull Economi Sylfaenol i nodi nid yn unig y cynhyrchion gofynnol ond cyflenwyr lleol y cynhyrchion hynny.

Ar gyfer y sector gweithgynhyrchu, rydym wedi cwblhau cam cyntaf darn o waith ar wahân ar fapio'r gadwyn gyflenwi er mwyn cael gwell dealltwriaeth o allu, cadernid a chyfleoedd angori'r gadwyn gyflenwi bresennol. Canolbwyntiodd hyn i ddechrau ar ddatblygu cronfa ddata gynhwysfawr i sefydlu llinell sylfaen o gwmnïau presennol sy'n gweithredu ar draws sawl is-sector gweithgynhyrchu. Rydym yn bwrw ymlaen â cham nesaf y gwaith hwn a fydd yn defnyddio'r data i gael cipolwg gwerthfawr ar gadwyni cyflenwi, gyda ffocws penodol ar sawl maes allweddol gan gynnwys Gwynt Arnofiol ar y Môr. Bydd y broses hon yn helpu i ddeall beth yw/fydd y cydrannau hanfodol, ac i ba raddau y mae gan y gadwyn gyflenwi bresennol y gallu i ymateb i gyfle o'r fath.

Yn y sector Bwyd a Diod cynhaliwyd arolwg bwyd ar draws y sector cyhoeddus i ganfod bylchau cyflenwi â'r potensial i ddatblygu gallu cyflenwi lleol. Yn y lle cyntaf, mae hyn yn llywio gwaith i gynyddu'r gyfran o gynnyrch lleol sy'n cael ei fwyta i gefnogi'r Ddarpariaeth Gyffredinol o Brydau Ysgol am Ddim, ac mae'n llywio datblygiad strategaeth ar gyfer caffael bwyd yn gyhoeddus, a'i nod yw sicrhau bod cymaint â phosibl o fwyd a gynhyrchir yn lleol yn cyrraedd platiâu'r sector cyhoeddus.

Rydym yn bwriadu dadansoddi cynlluniau buddsoddi ar gyfer datgarboneiddio tai a thrafnidiaeth yn y dyfodol er mwyn gallu mapio'r galw am gynnyrch yn y dyfodol yn erbyn

y capasiti cyflenwi lleol presennol. Bydd y gwaith hwn yn sail i waith datblygu cyflenwyr yn y dyfodol i sicrhau bod ecosystem o fusnesau lleol sydd â chymwysterau addas, i wneud y gorau o effaith economaidd a chymdeithasol y buddsoddiadau hyn i Gymru.

Yn olaf, bydd ein Strategaeth Arloesi, 'Cymru'n Arloesi: creu Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach' yn blaenoriaethu'r pethau hynny fydd yn cael yr effaith fwyaf ar Gymru, gan dargedu ein cymorth yn unol â 'chenadaethau' penodol. Yn hyn o beth, bydd ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: Addysg, yr Economi, Iechyd a Llesiant, a Hinsawdd a Natur. Mae Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu, a fydd yn nodi nifer bach o nodau ym mhob maes cenhadaeth, y camau y byddwn yn eu cymryd gyda phartneriaid, cerrig milltir a mesurau tymor byr, tymor canolig a hirdymor.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn rhoi digon o fanylion mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr ac edrychaf ymlaen at barhau i drafod gyda'r Aelodau ar sicrhau sector gweithgynhyrchu ffyniannus yng Nghymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Vaughan Gething AS**  
Gweinidog yr Economi

## Atodiad 1 – Cynllun Gweithgynhyrchu i Gymru – Perchnogion Gweithredu ac Amserlenni

<b>Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddatgarboneiddio'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru, yn seiliedig ar arferion a phrosesau economi gylchol.</b>		
<b>Camau</b>	<b>Arweinydd(ion)</b>	<b>Amserlen</b>
Gwneud carbon isel a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o'r Contract Economaidd ac ehangu'r ystyriaeth i holl agweddau eraill ar wariant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys grantiau a chaffael.	<b>GcoE</b> <b>Carys Roberts</b> – Pennaeth Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru (Cyflenwi), ETC, B&R. <b>Tracey Mayes</b> – Pennaeth Diwygio Caffael, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Paul Griffiths</b> – Pennaeth Cyflenwi Masnachol a Gallu, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Judith Budding</b> – Pennaeth Masnachol PMO ac Ops, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael.	Tymor Byr i Canolig
Defnyddio Cronfa'r Economi Gylchol fel dull i sbarduno mwy o ailgylchu a llai o dirlenwi, gan gynnwys defnyddio technolegau a phrosesau newydd mewn gweithgynhyrchu.	<b>Andy Rees</b> – Pennaeth y Gangen Strategaeth Wastraff, CCRA, Effeithlonrwydd Gwastraff ac Adnoddau.	Tymor Byr i Canolig
Ochr yn ochr â Diwydiant Sero Net Cymru, byddwn yn gweithio gyda chlystyrau a hybiau diwydiannol ledled Cymru wrth iddynt ddatblygu eu llwybrau ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i ddeall yn well y rôl bosibl y gall newid tanwydd a dal, defnyddio a storio carbon ei chwarae o ran datgarboneiddio gweithgynhyrchu.	<b>Anne Reynish</b> - Diwydiant Sero Net, ETC.	Tymor Byr i Canolig
Gweithio gyda Diwydiant Sero Net Cymru, Clwstwr Diwydiannol De Cymru a rhanddeiliaid yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys Hynet, i ddeall y seilwaith sydd ei angen i ddatgarboneiddio'r diwydiant a manteisio i'r eithaf ar fentrau perthnasol.	<b>Wendy Boddington</b> - Pennaeth Cyflenwi Rhanbarthol, ETC.	Tymor Byr i Canolig
<b>Datblygu'r amodau i angori cwmnïau gweithgynhyrchu allweddol yng Nghymru, gan gynnwys darparu seilwaith modern a chadwyni cyflenwi cadarn.</b>		
<b>Camau</b>	<b>Arweinydd(au)</b>	<b>Amserlen</b>
Llunio mapiau manwl o'r cadwyni cyflenwi ar gyfer cynnyrch hanfodol, gan gynnwys capasiti a gallu presennol. Byddwn yn defnyddio hyn i ganfod cyfleoedd i leoleiddio cadwyni cyflenwi, cynyddu gallu busnesau cynhenid a denu mewnfuddsoddiad wedi'i dargedu i fynd i'r afael â bylchau yn y cadwyni cyflenwi.	<b>Gunther Kostyra</b> - MAP a Diwydiant Cymru, ETC, B & R. <b>James Davies</b> - Prif Swyddog Gweithredol, Diwydiant Cymru.	Tymor Byr i Canolig
Mynd i'r afael â'r prinder safleoedd ar gyfer gweithgynhyrchu a sectorau cysylltiedig drwy fuddsoddi mewn safleoedd cyflogaeth strategol, gan ddarparu 300,000 troedfedd sgwâr y	<b>Leigh Jenkins</b> – Syrfêwr Prosiectau Eiddo, ETC, B & R.	Tymor Canolig i Hirdymor

flwyddyn o arwynebedd llawr newydd ledled Cymru drwy'r Cynllun Cyflenwi Eiddo.		
Sicrhau bod cwmnïau gweithgynhyrchu wedi'u hangori'n gryfach ac annog mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud yng Nghymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy ysgogiadau cymorth uniongyrchol fel y Contract Economaidd a buddsoddiad cyfalaf, er enghraifft, cyfleoedd a ddarperir gan y newid i drafnidiaeth ddi-allyriadau	<b>Claire McDonald</b> - Dirprwy Gyfarwyddwr - Polisi Economaidd, ETC, B & R. <b>James Davies</b> - Prif Swyddog Gweithredol, Diwydiant Cymru. <b>Darryn Lewis</b> - Pennaeth Mewnfuddsoddi, ETC, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach.	Hirdymor
Gweithio gyda datblygwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall a hyrwyddo potensial y gadwyn gyflenwi o'r ynni ar y môr yng Ngogledd Cymru ac yn y Môr Celtaidd	<b>Helen Donovan</b> - Uwch Reolwr Trawsnewid Diwydiannol, ETC, B & R.	Tymor Byr i Canolig
Cefnogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau mewn ymateb i'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, gan fabwysiadu dull caffael yn yr economi sylfaenol sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â chyflenwyr yng Nghymru a'u cefnogi pan fo hynny'n briodol	<b>Malcolm Davies</b> - Uwch Swyddog Datgarboneiddio Tai, CCRA, Tai ac Adfywio.	Tymor Byr i Canolig

**Nodi a datblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithlu ac arweinwyr er mwyn cyflawni 'Cymru 4.0'.**

<b>Camau</b>	<b>Arweinydd(ion)</b>	<b>Amserlen</b>
Cymharu ein perfformiad gweithgynhyrchu â'r arfer gorau yn rhanbarthau tebyg yn y DU ac yn fyd-eang. Defnyddio'r data hyn er mwyn defnyddio ein dulliau cymorth yn y ffordd orau i wella cynhyrchiant a chystadleurwydd	<b>James Davies</b> - Prif Swyddog Gweithredol, Diwydiant Cymru. <b>Phil Catherwood</b> - Uwch Reolwr Strategaeth - Symudedd, ETC, B & R.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Galluogi cwmnïau o Gymru, yn enwedig ein sylfaen gweithgynhyrchu, i ddysgu o arferion gorau byd-eang drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â rhaglenni o'r radd flaenaf fel Rhaglen Cyswllt Diwydiannol MIT.	<b>Matt Collins</b> - Uwch Reolwr Polisi Entrepreneuriaeth, Cydraddoldeb ac Ymgysylltu, ETC, B & R.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Sefydlu dull o gyfathrebu ag arweinwyr ar draws yr ecosystem gweithgynhyrchu i gydweithio, canfod cyfleoedd i ddysgu o arferion gorau byd-eang a thargedu cymorth penodol fel ein Rhaglen Sgiliau Hyblyg	<b>Gunther Kostyra</b> - MAP a Diwydiant Cymru, ETC, B & R. <b>James Davies</b> - Prif Swyddog Gweithredol, Diwydiant Cymru.	Tymor Byr i Canolig
Gweithredu TGAU newydd mewn Peirianneg drwy Cymwysterau Cymru, a fydd yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU 'Gwnaed yng Nghymru' i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru o 2025 ymlaen.	<b>Gareth Downey (Cymwysterau Cymru)</b>	Tymor byr i Canolig
Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid yn y sector gweithgynhyrchu i greu cynllun	<b>Mike Groves</b> - Cyfarwyddwr Rhaglen, Economi Ddigidol, ETC, B & R. <b>Mike Thomas</b> - Pennaeth Polisi a Chydlynu AI.	Tymor Canolig i Hirdymor

gweithredu sy'n nodi blaenoriaethau i gefnogi'r diwydiant i gyflymu'r broses o fabwysiadu arloesedd digidol a data, gan gynnwys seiber a deallusrwydd artifisial.		
---	--	--

**Cryfhau cydweithio rhwng rhanddeiliaid i fanteisio ar newid technolegol a chyflawni arloesedd mwy masnachol yn ddi-oed.**

Camau	Arweinydd(au)	Amserlen
Cefnogi ecosystem Cymru (gan gynnwys fforymau a digwyddiadau masnach) i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach gyda mwy o gydweithio a gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi yn unol â'r ymrwymadau a'r blaenoriaethau yn ein Strategaeth Arloesi, "Cymru'n Arloesi".	<b>Abi Phillips</b> - Pennaeth Arloesi, ETC, B & R. <b>Elaine Choules</b> - Pennaeth Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, ETC, B & R.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Defnyddio Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru fel canolbwynt i sbarduno ymchwil cydweithredol, lle mae ysgogiadau cymorth ategol yn cydgyfeirio er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl (gan gynnwys cynigion Arloesi ehangach Llywodraeth Cymru fel SMART).	<b>Abi Phillips</b> - Pennaeth Arloesi, ETC, B & R.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Gweithio i sicrhau mwy o gronfeydd ymchwil ac arloesi yn y DU.	<b>Chris Hale</b> - Pennaeth Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, ETC, Prif Swyddog Gwyddonol	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Parhau i ddatblygu gallu a chapasiti ymchwil yng Nghymru a hwyluso cyfleoedd cydweithio rhyngwladol drwy Raglen Sêr Cymru.	<b>Chris Hale</b> - Pennaeth Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, ETC, Prif Swyddog Gwyddonol	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Hyrwyddo perfformiad sylfaen Ymchwil Cymru a manteision allweddol cyllid gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.	<b>Chris Hale</b> - Pennaeth Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, ETC, Prif Swyddog Gwyddonol	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Datblygu map manwl o randdeiliaid allweddol i ddeall yr ecosystem bresennol a chanfod cyfleoedd i sbarduno cyfleoedd cydweithio yn y dyfodol – wedi'i gysylltu â meysydd blaenoriaeth wrth fapio'r cadwyni cyflenwi (hynny yw, pa undebau llafur/prifysgolion sy'n ymwneud â phob ardal).	<b>Gunther Kostyra</b> - MAP a Diwydiant Cymru, ETC, B & R. <b>James Davies</b> - Prif Swyddog Gweithredol, Diwydiant Cymru.	Tymor Canolig
Byddwn yn annog ac yn cefnogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i fabwysiadu arferion 'arloesi agored' i reoli eu dull o gydweithio.	<b>Mark Lewis</b> - Rheolwr Masnacheiddio, ETC, B&R.	Tymor Byr

**Sefydlu egwyddorion cyflogaeth 'Gwaith Teg' yng Nghymru, gan hyrwyddo cynhwysiant, diogelwch a gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol.**

Camau	Arweinydd(au)	Amserlen
Sefydlu llinell sylfaen a monitro grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector gweithgynhyrchu yn	<b>Huw Griffiths</b> - Pennaeth Gwaith Teg, ESJ&WL, Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg. <b>Melina Colyer</b> - Rheolwr Cyflenwi Uned	Tymor Byr i Canolig

barhaus, gyda chynnydd yn erbyn metrigau allweddol.	Cymorth Cydraddoldeb, CCRA, Gweithrediadau CCRA. <b>Joe Davies (KAS)</b> - Uwch Swyddog Ystadegol, COOG, DDAT A KAS.	
Defnyddio ein rhwydweithiau i nodi a hyrwyddo arferion gorau a manteision partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg, cydraddoldeb a chynhwysiant ar draws sectorau gweithgynhyrchu.	<b>Huw Griffiths</b> - Pennaeth Gwaith Teg, ESJ&WL, Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg.	Tymor Byr
Gwneud y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi yn rhan annatod o ddatganiad Polisi Caffael Cymru fel bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus iddo yn ei weithgarwch caffael.	<b>Sue Hurrell</b> - Pennaeth Caffael Gwaith Teg, ESJ&WL, Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg. <b>Tracey Mayes</b> - Pennaeth Diwygio Caffael, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Paul Griffiths</b> - Pennaeth Cyflenwi Masnachol a Gallu, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Judith Budding</b> - Pennaeth PMO ac Ops Masnachol, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael.	Tymor Byr
Gweithio gyda chontractwyr mawr yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod y gofynion sy'n ymwneud â'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi yn llifo drwy'r gadwyn gyflenwi.	<b>Sue Hurrell</b> - Pennaeth Caffael Gwaith Teg, ESJ&WL, Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg. <b>Tracey Mayes</b> - Pennaeth Diwygio Caffael, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Paul Griffiths</b> - Pennaeth Cyflenwi Masnachol a Gallu, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Judith Budding</b> - Pennaeth PMO ac Ops Masnachol, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad ymysg pobl o gefndiroedd amrywiol mewn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM	<b>Chris Hale</b> - Pennaeth Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru, ETC, Prif Swyddog Gwyddonol <b>Sam Huckle</b> - Pennaeth Strategaeth Cyflogadwyedd, ESJ&WL, Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Cefnogi cyflwyno Cymraeg 2050: Cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr drwy adeiladu ar gryfderau ein cymunedau Cymraeg	<b>Iddon Edwards</b> - Pennaeth yr Economi, Tai a'r Gymraeg, ESJ&WL, Cyfarwyddiaeth Addysg.	Tymor Byr
<b>Rhoi cymorth busnes ar waith i alluogi gweithgynhyrchwyr yng Nghymru i ateb y galw am gynnyrch sy'n strategol bwysig yn y dyfodol.</b>		
<b>Camau</b>	<b>Arweinydd(au)</b>	<b>Amserlen</b>
Dadansoddi gwariant presennol y sector cyhoeddus yng Nghymru i ganfod cyfleoedd i leoleiddio cadwyni cyflenwi ar gyfer eitemau hanfodol fel y nodir drwy waith mapio'r gadwyn gyflenwi yn fanwl.	<b>Tracey Mayes</b> - Pennaeth Diwygio Caffael, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Paul Griffiths</b> - Pennaeth Cyflenwi Masnachol a Gallu, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. • Carys Roberts	Tymor Byr
Datblygu diffiniad cliriach ar gyfer 'Gwerth Cymdeithasol' yng nghydestun Cymru ochr yn ochr â methodoleg gyson i fesur ac adrodd ar werth cymdeithasol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.	<b>Tracey Mayes</b> - Pennaeth Diwygio Caffael, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael. <b>Stuart Smith</b> - Arweinydd Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol, COOG, Cyfarwyddiaeth Fasnachol a Chaffael.	Tymor Byr
Rhoi ein cymorth busnes ar gyfer gweithgynhyrchu ar waith o amgylch nifer o gynhyrchion hanfodol wedi'u targedu sy'n	<b>Gunther Kostyra</b> - MAP a Diwydiant Cymru, ETC, B & R. <b>James Davies</b> - Prif Swyddog Gweithredol, Diwydiant Cymru.	Tymor Byr i Canolig

arwyddocaol yn strategol i ffyniant hirdymor Cymru.		
Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru, byddwn yn gweithio gyda gweithgynhyrchwyr Cymru i greu sector allforio cryf, bywiog a chynaliadwy drwy amrywiaeth o raglenni cymorth busnes a chyngor i feithrin capasiti a gallu allforio yng Nghymru.	<b>Richard Harris</b> - Pennaeth Masnach, ETC, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach.	Tymor Byr i Canolig a Hirdymor
Adeiladu ar lwyddiant Rhaglen Clystyrau Darbodus Toyota Llywodraeth Cymru, gan wneud egwyddorion rheoli darbodus a gwelliannau cynaliadwy yn rhan annatod o gystadleurwydd.	<b>Phil Catherwood</b> - Uwch Reolwr Strategaeth - Symudedd, ETC, B & R.	Tymor Byr i Canolig



Rebecca Evans AS,  
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

## Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Protocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.



## Rhesymau annigonol dros oedi

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

*"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."*

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwro oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

## Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi **ymgynghori** â'r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae'n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi'r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrllon ar faterion o'r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymadau a wnaethoch yn flaenorol i weithio'n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau'r gyllideb.

## Y camau nesaf

Rwy'n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a'r sylwadau a fynegwyd yn flaenorol ar y materion hyn.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 2.9

04 July 2023



Paul Davies MS

Chair of the Economy, Trade, and Rural Affairs Committee, Senedd

By email: paul.davies@senedd.wales

Dear Chair

## **PRIMARY CARE ELECTRONIC PRESCRIBING SERVICE MOVEMENT OF PRESCRIPTIONS ACROSS BORDERS**

Thank you for recently meeting with Community Pharmacy Wales to discuss our concern regarding the movement of prescriptions across the border to England. Below are our concerns that we raised during our meeting.

Although it is feasible, very few Welsh prescriptions are currently dispensed in England, either from England based community pharmacies or England based Distance Selling Pharmacies (DSPs). This is because it would rely on a paper prescription flowing across the border which would require a patient to present the prescription in person or by post to access their services. Unless action is taken by the Welsh Government to prevent it, it will be impossible to retain this position following the introduction of the Electronic Prescription Service in Wales. We are asking for this protection from the Welsh Government to the community pharmacy network in Wales, particularly during the roll-out phase of implementation of the EPS, because of the risk to individual businesses prior to achieving a level playing field.

In England the number of items dispensed by Distance Selling Pharmacies is growing monthly but is currently some 4.5% of the total number of prescription items dispensed in England. Following the introduction of EPS in Wales, there is no reason to believe that the same % of Welsh prescriptions will not be dispensed by DSPs located in England due to the very aggressive marketing campaigns that they currently undertake. We are aware that they intend to increase their marketing activity in Wales immediately following the introduction of EPS and to target GPs located in the pilot sites.

The Wales based GP network operates two separate patient record systems. The Wales based community pharmacy network operates 8 patient management systems and it is intended to roll out EPS to community pharmacies over a fifteen-month period. This means that different areas across Wales will "go live" at different times making it easier for England based DSPs to target those areas. DSPs have existed in England for many years and are very slick and

---

Chief Executive: Russell Goodway OBE OSTJ

2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff, CF10 4DQ  
2 Caspian Pentir, Ffordd Caspian Caerdydd, CF10 4DQ  
Tel./Ffon 029 2044 2070  
Fax/Ffacs 029 2044 2071  
russell.goodway@cpwales.org.uk  
www.cpwales.org.uk


polished at blanketing areas with publicity – they have already been in contact with DHCW and others in Wales to find out more on the Welsh roll-out.

Prescriptions are footfall drivers into community pharmacies – so without prescriptions the pharmacies will have a reduced opportunity to deliver Clinical Services which will then impact on other parts of the NHS. Additionally, community pharmacies are also footfall drivers for the rest of the high street – reduced prescriptions in community pharmacies will result in reduced footfall. It is likely that the loss the lost income associated with the reduction in the number of prescriptions dispensed in Wales, together with the loss of associated retained purchase profit will result in further pharmacy closures. The rate of pharmacy closures in Wales is currently higher than in England where the reduction in the number of pharmacies was expected due to Government funding policy. By the end of August 2023, Wales will have less than 700 pharmacies for the first time in over 15 years with only 699 pharmacies compared to 717 in December 2019 – an overall reduction of 2.5%.

We would be grateful if your committee would reflect on the current proposal as a matter of urgency to ensure that Wales based practices are best protected in the interests of the patient population in Wales.

We would be happy to meet with you again or fellow committee members to discuss our concerns in more detail, if you feel that would be helpful.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Judy Thomas". The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line that serves as a separator.

**JUDY THOMAS**  
**ACTING CHIEF EXECUTIVE**

Eluned Morgan AS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol

Lesley Griffiths AS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a  
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Vaughan Gething AS  
Gweinidog yr Economi

13 Gorffennaf 2023

## Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol

Annwyl Eluned, Lesley a Vaughan

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi mynegi pryderon i'r Pwyllgor ynghylch cyflwyno'r gwasanaeth rhagnodi electronig gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru yn poeni y bydd newid i ragnodi electronig yn cael effaith negyddol ar fferyllfeydd cymunedol, gan na fyddant yn gallu cystadlu â fferyllfeydd yn Lloegr sy'n gwerthu nwyddau dros bellteroedd mawr. Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi dweud y bydd gostyngiad yn nifer y presgripsiynau sy'n cael eu cyflenwi mewn fferyllfeydd cymunedol, ynghyd â gostyngiad yn nifer y nwyddau ychwanegol sy'n cael eu prynu pan fo unigolion yn casglu eu presgripsiynau yno, yn debygol o arwain at golli incwm a fydd yn arwain at gau fferyllfeydd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am gau fferyllfeydd cymunedol gan eu bod yn ganolbwynt pwysig i gymunedau gwledig a all hefyd ddenu ymwelwyr i'r stryd fawr a thrwy hynny ddarparu lefel o ysgogiad economaidd i ardal.

Gofynnwn i chi ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Pa asesiad a wnaed mewn cysylltiad â rhoi'r trefniadau rhagnodi electronig ar waith a'r effaith o ran cau fferyllfeydd?
- A wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r effaith benodol ar gymunedau gwledig?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Mark Isherwood AS yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf ynghylch cyflwyno'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) mewn gofal sylfaenol yng Nghymru.

Rwyf yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) mewn perthynas â chyflwyno'r EPS gofal sylfaenol ac rwyf wedi cael gohebiaeth yn ddiweddar gan CPW trwy Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCC) yn tynnu fy sylw ymhellach at y meysydd hyn sy'n peri pryder.

Rwyf yn nodi eich pryderon hefyd o ran yr effaith y gall cyflwyno EPS ei chael ar fferyllfeydd cymunedol yma yng Nghymru ac rwyf wedi atodi fy ymateb, yn Atodiad I, i Gadeirydd HSCC sydd, yn fy marn i, yn mynd i'r afael â'r pryderon yr ydych wedi'u codi.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**  
**Minister for Health and Social Services**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 40**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





Russell George AS  
Cadeirydd,  
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[Seneddlechyd@senedd.cymru](mailto:Seneddlechyd@senedd.cymru)

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf ynghylch cyflwyno'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi'r lefel uchaf erioed o gyllid yn y sector fferylliaeth gymunedol ac mae fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru yn cael llawer mwy o gyllid y GIG fesul fferyllfa nag mewn unrhyw ran arall o'r DU. Mae ein diwygiadau i drefniadau cytundebol y GIG yn golygu bod fferyllfeydd yma bellach yn cael incwm sylweddol am ddarparu ystod gynyddol o wasanaethau clinigol ychwanegol. Mae'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys gwasanaeth rhagnodi annibynnol fferyllfeydd cenedlaethol Cymru, yn sicrhau ein bod yn gwireddu manteision hyfforddiant ac arbenigedd fferyllwyr, yn tynnu pwysau oddi ar Ymarferwyr Cyffredinol a gwasanaethau eraill y GIG, ac yn gwella mynediad at ofal o ansawdd uchel i bobl ledled Cymru. Mae'n bwysig nodi bod ein diwygiadau yn helpu i greu dyfodol cynaliadwy i fferyllfeydd cymunedol mewn perthynas â gwell defnydd o hyfforddiant, arbenigedd a hygyrchedd fferyllwyr.

Bydd ein diwygiadau yn golygu bod mwy o bobl yn defnyddio fferyllfeydd yn y dyfodol am eu bod yn darparu mynediad cyflym at ystod o wasanaethau gofal iechyd gan sicrhau nad yw'r sector yn ddibynnol ar ymweliadau gan bobl y mae eu presgripsiynau'n cael eu paratoi. Mae'r diwygiadau hefyd yn golygu bod y lefelau uchaf erioed o gyllid contractiol yn cael eu gwarantu, hyd yn oed os dylai nifer y presgripsiynau sy'n cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yng Nghymru leihau ar ôl i EPS gael ei gyflwyno.

Mae llif trawsffiniol presgripsiynau yn bwysig i lawer o bobl ac yn enwedig y rhai sy'n byw ac yn defnyddio fferyllfeydd yn agos at y ffin â Lloegr. Bydd cyflwyno EPS yng Nghymru yn golygu y gall pobl enwebu unrhyw fferyllfa yng Nghymru neu Loegr yn y dyfodol i weinyddu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu presgripsiwn. Gall hyn arwain at newid i'r ffordd y mae presgripsiynau rhai pobl yn cael eu gweinyddu.

Efallai y bydd rhai pobl yng Nghymru nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, yn dewis i'w presgripsiynau gael eu gweinyddu gan fferyllfeydd yn Lloegr ac efallai y bydd rhai pobl yn Lloegr yn dewis i'w presgripsiynau gael eu gweinyddu mewn fferyllfeydd yng Nghymru. Mae cyflwyno EPS, felly, yn rhoi chwarae teg i fferyllfeydd yng Nghymru trwy roi cyfle iddynt weinyddu presgripsiynau oddi wrth gleifion y darperir eu gofal gan Ymarferwyr Cyffredinol neu Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr.

Rwyf yn deall bod pryderon ymhlith rhai contractwyr fferylliaeth o ran cynaliadwyedd y rhwydwaith fferylliaeth yma ar ôl i EPS gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod Fferyllfeydd Gwerthu o Bell (DSPs) yn cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth gyffredinol o wasanaethau fferylliaeth sydd ar agor i'r cyhoedd a'r dystiolaeth yw, hyd yn oed ar ôl 20 mlynedd, mai canran fach yn unig o'r holl bresgripsiynau yn Lloegr sy'n cael eu gweinyddu gan DSPs. Canfu adroddiad diweddar gan Gymdeithas y Fferyllwyr Cwmniâu fod mwy na 70% o DSPs yn gweinyddu mwy na 50% o'u presgripsiynau i gleifion o un ardal cod post sydd wedi'i lleoli o fewn 10 milltir i'r fferyllfa. Mae hyn yn awgrymu mai ychydig iawn o DSPs yn Lloegr fydd â diddordeb mewn gweinyddu presgripsiynau i gleifion yng Nghymru. Os bydd cleifion yng Nghymru yn dymuno defnyddio DSP, bydd gofyn iddynt, oni bai bod ganddynt eithriad dilys, dalu taliadau presgripsiwn ac efallai y byddant hefyd yn gorfod talu costau postio a pheycynnu hyd yn oed os ydynt wedi'u heithrio rhag taliadau presgripsiwn.

Mae ein buddsoddiad parhaus mewn fferyllfeydd cymunedol yn sicrhau bod fferyllfeydd yn parhau i weithredu ar y stryd fawr ym mhob rhan o Gymru. Rhwng 2015/16 a 2021/22 cafwyd gostyngiad o bedwar yn unig yn nifer y fferyllfeydd yng Nghymru (o 716 i 712) sef gostyngiad o 0.6%. Dros yr un cyfnod yn Lloegr, cafwyd gostyngiad o 675 (o 11,822 i 11,147) yn nifer y fferyllfeydd (ac eithrio DSPs) sef gostyngiad o 5.7%. Mae'r fferyllfeydd ychwanegol sydd wedi cau y cyfeirir atynt gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru (CPW) yn ymwneud yn benodol â phenderfyniad masnachol ledled y DU gan berchnogion Lloyds Pharmacy i adael y farchnad. Mae llawer o'r fferyllfeydd hyn wedi cael eu caffael gan gontractwyr fferyllol eraill ac ni allwn ddyfalu beth fydd yn digwydd i'r rhai nad ydynt wedi'u gwerthu eto. Mae'n amhriodol awgrymu bod penderfyniad masnachol a wneir gan un contractwr yn arwydd o broblem ehangach gyda'r farchnad fferyllfeydd yng Nghymru, ac i CPW ddefnyddio'r data hwn yn ddetholus i awgrymu yn anghywir bod cyfradd cau fferyllfeydd yng Nghymru yn 'uwch nag yn Lloegr'.

Yn olaf, rydym yn helpu fferyllfeydd i roi atebion arloesol ar waith i wella effeithlonrwydd a phrofiad cleifion. Rydym hefyd yn buddsoddi £893,000 yn y [Gronfa Arloesi ar gyfer Fferylliaeth](#) a fydd yn darparu cyllid i gyflenwyr system fferylliaeth wella'r ffordd y mae systemau TG mewn Fferyllfeydd yng Nghymru yn gweithredu, gan ddarparu cyfleoedd i fferyllfeydd ddod yn fwy effeithlon – er enghraifft, rhoi gwybod drwy ap GIG Cymru fod presgripsiwn yn barod, sy'n golygu nad oes rhaid i staff ateb cymaint o alwadau yn gofyn a yw presgripsiwn yn barod i'w gasglu.

Bydd y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yn gwella profiadau cleifion yng Nghymru y mae eu meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi, trwy wneud y gwaith o drosglwyddo gwybodaeth rhwng eu Hymarferydd Cyffredinol a'i fferyllfa ddewisol yn ddi-dor ac yn gyflym. Mae tua 50,000 o bresgripsiynau a roddir bob mis gan Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru yn cael eu dosbarthu gan fferyllfeydd a chontractwyr offer yn Lloegr. Byddai cyfyngu ar lif

trawsffiniol presgripsiynau yn atal y cleifion hyn rhag gwireddu buddion EPS, gan beri anfantais yn benodol i bobl sy'n defnyddio fferyllfeydd Lloegr yn awr, ac yn enwedig y rhai sy'n byw yn agos at y ffin â Lloegr.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

9 Awst 2023

## Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Gofal Sylfaenol

Annwyl Weinidogion,

Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi codi pryderon gyda mi, yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ynghylch cyflwyno'r gwasanaeth presgripsiynu electronig gofal sylfaenol yng Nghymru.

Mae'r Fferylliaeth yn poeni y bydd symud i bresgripsiynu electronig yn cael effaith negyddol ar fferyllfeydd cymunedol, gan na fyddant yn gallu cystadlu â fferyllfeydd mawr sy'n gwerthu o bell yn Lloegr.

Mae'r Fferylliaeth wedi dweud bod y gostyngiad yn nifer y presgripsiynau sy'n cael eu dosbarthu mewn fferyllfeydd cymunedol, ynghyd â cholli pryniannau ychwanegol a wneir gan unigolion sy'n casglu presgripsiynau, yn debygol o arwain at golli incwm a fydd yn arwain at gau fferyllfeydd. Rwyf wedi atodi copi o lythyr a anfonodd y Fferylliaeth ataf sy'n amlinellu'r pryderon hyn yn fanylach.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



A fyddech cystal â rhoi ymateb imi i'r materion a godwyd yn y llythyr? Yn eich ymateb, hoffwn ichi gynnwys manylion am yr effaith bosibl ar yr ystod estynedig o wasanaethau clinigol a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol o dan y Fframwaith Contractiol Fferylliaeth Gymunedol, y gwnaeth Llywodraeth Cymru ei ail-negodi gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac a fydd wedyn yn effeithio ar rannau eraill o'r GIG hefyd.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, a Paul Davies AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'Mark Isherwood', is written over a horizontal line. The signature is fluid and cursive.

Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/1557/23

Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

14 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 31 Mai, ynghylch yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil Bwyd (Cymru). Fe wnaethoch holi am fy ymatebion i argymhellion 2, 4, 6, 8, 9, 10, 12, 16, ac 17, ac 'rwyf wedi eu darparu mewn atodiad i'r llythyr hwn.

Roedd eich adroddiad o gymorth imi ac fe ystyriwyd pob argymhelliad yn ofalus. Bu archwilio'r polisi bwyd yn ystod y broses o graffu ar y Bil yn ddefnyddiol o ran datgelu'r angen i gyfathrebu'r ystod eang o bolisïau'n ymwneud â bwyd ar draws Llywodraeth Cymru yn fwy eglur. Yn sgil hynny, ar 24 Mai ymrwymais i gyhoeddi dogfen fer i wneud hynny, ac mae gwaith wedi dechrau, gyda'r bwriad o'i chyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Gyda methiant y Bil, mae fy Adran wedi aildechrau gweithio ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad – Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Fil Bwyd (Cymru)**

Argymhellion yr Adroddiad	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p><b>Argymhelliad 2</b> Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wella ei dull o ymdrin â'r system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig ac yn cyd-fynd. Gallai hyn naill ai fod drwy'r Bil hwn neu drwy ddulliau anneddfwriaethol. Os bydd y Bil yn methu, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio pa elfennau o'r Bil y gallai eu cyflwyno drwy lwybr anneddfwriaethol</p>	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn <b>mewn egwyddor</b>.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â phwysigrwydd polisïau cydgysylltiedig sy'n cyd-fynd. Yn hyn o beth mae polisïau'n cael eu llywio gan y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio wedi'u sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae polisïau sy'n ymwneud â bwyd yn cael eu cysylltu â'i gilydd pan fyddant yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad yw rhanddeiliaid yn gweld hynny. Felly, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn rhannu gwybodaeth am bolisïau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi dogfen fer eleni i grynhoi polisïau sy'n ymwneud â bwyd, a'r ffordd maent yn cydgysylltu ar draws meysydd polisi ac â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>
<p><b>Argymhelliad 4</b> Os yw'r Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi dogfen sy'n nodi ei pholisïau bwyd, ar draws adrannau, a sut y mae'r rhain yn gyson â'i phrif amcanion cyffredinol. Dylai'r ddogfen hon gael ei diweddarau'n rheolaidd</p>	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn.</p> <p>Yn ystod y drafodaeth ar Egwyddorion Cyffredinol ar 24 Mai, ymrwymodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i gyhoeddi dogfen drawsbotffolio fer yn amlinellu ein holl bolisïau bwyd, a'r ffordd mae'r rhain yn cyd-fynd â pholisïau adrannau eraill y Llywodraeth. Bydd y ddogfen hon yn darparu lefel uchel o atebolrwydd ar gyfer ffocws polisïau ar faterion bwyd. Mae</p>

	Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r ddogfen yn 2023.
<b>Argymhelliad 6</b> Os bydd y Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer dadansoddi bylchau o'r targedau presennol sy'n berthnasol i'r system fwyd ac, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gyflwyno targedau newydd i lenwi unrhyw fylchau	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.</p> <p>Mae eisoes gan Lywodraeth Cymru bolisiau cynhwysfawr sy'n ymwneud â bwyd ar waith ynghyd â thargedau ategol. Rydym yn fodlon nad oes unrhyw fylchau sylweddol, ond rydym wedi ymrwymo i fonitro hyn, ac os bydd y dystiolaeth yn awgrymu bod angen diwygiadau neu os oes bwch, byddwn yn ystyried gwneud newidiadau. Fel arfer mae'r gwaith o ddatblygu a monitro polisiau'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â rhanddeiliaid.</p>
<b>Argymhelliad 8</b> Os bydd y Bil yn methu, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru naill ai sefydlu bwrdd polisi bwyd mewnol neu weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu swydd systemau bwyd bwrpasol i lywio polisi bwyd cydgysylltiedig yng Nghymru, gyda'r dyhead o ddarparu bwyd fforddiadwy ac iach sy'n economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl nawr ac yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y bwrdd hwn bob blwyddyn.	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn <b>mewn egwyddor</b>.</p> <p>Yn y drafodaeth yn y Senedd ynghylch y Bil Bwyd (Cymru) ar 24 Mai, cyhoeddodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd y byddai'r Prif Weinidog yn cadeirio fforwm sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru gyfan i sicrhau bod polisiau'n gydgysylltiedig a bod pobl yn gweld hynny ar waith. Cynhaliwyd fforwm ar 13 Mehefin, ac o ganlyniad mae gwaith wedi dechrau ar draws portffolios i nodi polisiau sy'n ymwneud â bwyd sy'n berthnasol i'r ddogfen fwyd a gyhoeddir yn nes ymlaen eleni, a hefyd polisiau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Bwyd Cymunedol.</p>
<b>Argymhelliad 9</b> Ni waeth a yw'r Bil yn mynd rhagddo neu'n methu, mae'r Pwyllgor yn cefnogi datblygu strategaeth fwyd genedlaethol gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod allweddol o gydgysylltu polisi bwyd Llywodraeth Cymru ar draws adrannau.	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn <b>mewn egwyddor</b>.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi amlinellu dull strategol ar gyfer materion bwyd, gyda pholisiau cynhwysfawr a chysylltiedig ar waith. Mae gan y rhain dargedau a dangosyddion cynnydd penodol, ac</p>



	<p>maent yn cael eu datblygu a'u gweithredu drwy gyfeirio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r (Cymru) 2015, sy'n darparu fframwaith strategol cyffredin ar gyfer gwneud polisïau. Os bydd bylchau'n cael eu nodi yn y sbectrwm polisi hwn, bydd polisïau'n cael eu creu (er enghraifft, y Strategaeth Bwyd Cymunedol). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi bod achos dros strategaeth fwyd genedlaethol gyffredinol, gan y byddai hyn yn dyblygu polisïau sy'n ymwneud â bwyd sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen am ddogfen fer i grynhoi polisïau sy'n ymwneud â bwyd, a'r ffordd maent yn cydgysylltu ar draws meysydd polisi ac â nodau llesiant Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyhoeddir y ddogfen hon yn nes ymlaen yn 2023.</p>
<p><b>Argymhelliad 10</b> Dylai'r strategaeth fwyd genedlaethol gynnwys unrhyw dargedau bwyd presennol ac unrhyw dargedau bwyd newydd a osodir.</p>	<p>Rydym yn <b>gwrthod</b> yr argymhelliad hwn yng ngoleuni'r ymateb i argymhelliad 9. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn pennu targedau ar gyfer polisïau penodol sy'n ymwneud â bwyd.</p>
<p><b>Argymhelliad 12</b> Os bydd y Bil yn methu a bod yr argymhelliad i sefydlu bwrdd bwyd mewnol o fewn Llywodraeth Cymru yn cael ei weithredu, dylai'r bwrdd hwn fod â rôl oruchwylio o ran datblygu a gweithredu'r strategaeth.</p>	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn <b>mewn egwyddor</b>.</p> <p>Cadeiriodd y Prif Weinidog Fforwm Bwyd mewnol ar 13 Mehefin i sicrhau bod cydgysylltiadau da rhwng polisïau a bod pobl yn gweld y rhain ar waith. Mae gwaith wedi dechrau ar draws polisïau i nodi polisïau sy'n ymwneud â bwyd sy'n berthnasol i ddogfen fwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei rhannu â'r pwyllgor a'i chyhoeddi yn nes ymlaen eleni. Mae gwaith hefyd wedi ailddechrau i nodi'r holl polisïau sy'n berthnasol i'r Strategaeth Bwyd Cymunedol.</p>

	Bydd Strategaeth Bwyd Cymunedol yn cael eu datblygu sy'n ystyried buddiannau a chyfraniadau'r gwahanol bortffolios.
<p><b>Argymhelliad 16</b> Os bydd y Bil yn methu, dylai'r Gweinidog, drwy ganllawiau priodol, annog camau gweithredu a fyddai'n hybu gweithredu cynlluniau bwyd lleol i annog sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio bwyd o ffynonellau lleol.</p>	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn <b>mewn egwyddor</b>.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi Partneriaethau Bwyd Lleol drwy ddarparu arian i'w datblygu a chyflogi cyd-gysylltwyr. Rydym yn ystyried sut y gall y gwaith hwn gael ei ddatblygu fel un o elfennau'r Strategaeth Bwyd Cymunedol. Mae potensial i Partneriaethau Bwyd Lleol fod yn fodel cryf ar gyfer nodi a rhoi ar waith camau gweithredu sy'n gysylltiedig â bwyd ar lefel leol, drwy ddarparu'r ffordd a'r capasiti i nodi anghenion ar y cyd a chynllunio ar eu cyfer. Mae'n bosibl y gellid datblygu cysylltiad rhyngddyn nhw a chyrrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn darparu ffocws ar gyfer gweithredu ar faterion bwyd lleol ar bob lefel – o'r lefelau isaf i fyny a'r lefelau uchaf i lawr.</p> <p>Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn rhoi dyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol ar gyrrff cyhoeddus penodol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol. Mae gan y ddyletswydd newydd y potensial i gynyddu faint o fwyd sy'n cael eu caffael yn lleol. Yn ogystal, mae cyflwyno polisi i ddarparu prydau bwyd am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd yn cynyddu faint o fwyd sy'n cael eu caffael gan y sector cyhoeddus, ac yn creu</p>

	cyfleoedd i gaffael bwyd o ffynonellau lleol.
<p><b>Argymhelliad 17</b> Os bydd y Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd bwyd yn lleol drwy'r mecanweithiau gorau sydd ar gael o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Gallai hyn fod drwy gynnwys dangosydd/ion llesiant newydd gyda cherrig milltir i gefnogi system fwyd well. Dylai hyn olygu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried caffael cyhoeddus a chynaliadwyedd bwyd ymhellach yn eu hasesiadau a'u cynlluniau llesiant.</p>	<p>Rydym yn <b>derbyn</b> yr argymhelliad hwn <b>mewn egwyddor</b>.</p> <p>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw materion bwyd yn cael eu hystyried yn systematig nac yn gyson gan gyrrff cyhoeddus unigol na chan fyrdau gwasanaethau cyhoeddus, er bod rhai enghreifftiau o arferion da.</p> <p>Mae'r ymateb i argymhelliad 16 yn cynnwys cyfeiriad at bartneriaethau bwyd lleol a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol – y ddau yn ffyrdd posibl o gynyddu'r pwyslais ar gynaliadwyedd bwyd ar lefel leol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol o berthnasedd posibl yr argymhelliad hwn i 'arfer gwrando' Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i arwain ei flaenoriaethau a gwaith Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035. Gall y rhain nodi a fyddai adolygu dangosyddion a cherrig milltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arwain at ragor o bwyslais ar gynaliadwyedd bwyd.</p>

Paul Davies AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul,

Byddwch yn gwybod mai'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar **10 Gorffennaf 2023**, gwnaethom ystyried y DU/y Swistir: Cytundeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol yn y DU a'r Swistir.

Yn ystod ein trafodaeth ar y cytundeb, cytunwyd i dynnu sylw eich Pwyllgor a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ato, er gwybodaeth.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei barn ar y berthynas, os o gwbl, rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel, gan gofio bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad ar gyfer y rhiant-ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer gweithredu'r cytundeb hwn.



Atodir ein hadroddiad diweddaraf er gwybodaeth i chi.

Yn gywir

*Huw Irranca-Davies*

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a ystyriwyd ar 10 Gorffennaf 2023

Gorffennaf 2023



## 1. Y cefndir

- 1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.
- 2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.
- 3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.
- 4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:
  - a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
  - a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.
- 5.** Ar 10 Gorffennaf 2023<sup>1</sup>, gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:
  - Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol
  - Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeled a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill
- 6.** Gwnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas â'r ddau gytundeb; mae manylion pellach wedi'u nodi isod.

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Gorffennaf 2023

## 2. Y cytundebau y mae angen gweithredu pellach yn eu cylch

### Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol

- 7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 20 Mehefin 2023, ar ôl cael ei lofnodi ar 14 Mehefin. Ei derfyn amser ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 6 Medi 2023.
- 8.** Mae gan y DU a'r Swistir safonau proffesiynol uchel a threfn debyg ar gyfer cydnabod systemau cymwysterau proffesiynol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol yn y DU a'r Swistir.
- 9.** Diben y cytundeb yw sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau a enillwyd yn y DU sy'n ceisio ymarfer proffesiwn a reoleiddir yn y Swistir (ac i'r gwrthwyneb) yn gallu cael mynediad at system effeithlon a thryloyw i gael cydnabyddiaeth ar gyfer eu cymwysterau proffesiynol.<sup>2</sup>
- 10.** Mae'r trefniadau ar gyfer symudiad rhydd personau i gyflenwi gwasanaethau yn cael eu llywodraethu dros dro gan gytundeb arall rhwng y DU a'r Swistir hyd at ddiwedd 2025. Yn dilyn trafodaethau a gynhaliwyd gan weithgor a sefydlwyd o dan y cytundeb hwnnw ar gydnabod cymwysterau proffesiynol, cytunwyd y bydd y DU a'r Swistir yn symud o'r trefniadau sydd ar waith o dan eu cytundeb symudedd gwasanaethau i system cydnabyddiaeth gilyddol.
- 11.** Mae'r cytundeb hwn hefyd yn parhau â threfniadau sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024 o ddeddfwriaeth yr UE sy'n gymwys i ddinasyddion y DU a'r Swistir, gan roi sicrwydd hirdymor i weithwyr proffesiynol, busnesau, defnyddwyr a buddsoddwyr yn y ddwy wlad.<sup>3</sup>
- 12.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol sy'n fater a gadwyd yn ôl at ddibenion Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am bolisiau'r DU mewn

---

<sup>2</sup> [Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol, Mehefin 2023](#), paragraff 2.2

<sup>3</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3



perthynas â chysylltiadau masnach rhwng y DU â'r Swistir ac am y cytundeb hwn, tra bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu gyfrifoldeb cyffredinol dros y bolisi'r DU o ran y berthynas rhwng y DU â'r Swistir.<sup>4</sup>

**13.** Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod y cytundeb yn ymwneud â gofynion rheoleiddio ar gyfer cymwysterau proffesiynol, ac mae rhai agweddau arnynt wedi'u datganoli i Gymru (a'r Alban a Gogledd Iwerddon). Ar y sail honno, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb a'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi.<sup>5</sup>

**14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro y bydd angen rhoi'r Cytundeb ar waith ledled y DU i roi effaith i'r darpariaethau mewn cyfraith ddomestig. Mae Llywodraeth y DU yn dechrau gweithio ar y broses o'i weithredu ac mae Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 yn cynnwys pwerau y gall Gweinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig eu defnyddio i roi cytundebau cydnabyddiaeth ryngwladol ar waith.<sup>6</sup>

**15.** Gwrthododd y Senedd gydsyniad i *Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022* ar ôl ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.<sup>7</sup>

**16.** Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol (fel yr oedd ym mis Mehefin 2021) gwnaeth Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, fynegi pryderon ynghylch cysylltu cymwysterau proffesiynol â pholisïau masnach. Mynegodd bryderon y:

*"...gallai penderfyniadau gael eu categoreddio'n benderfyniadau ynghylch 'masnach' yn hytrach na phenderfyniadau ynghylch 'cymwysterau proffesiynol' a chael eu gosod ar Gymru yn groes i Gonfensiwn Sewel. Er bod sicrwydd gan Weinidogion Llywodraeth y DU a chanllawiau cyhoeddedig yn nodi nad dyma'r bwriad, mae'n amlwg bod hon yn risg oherwydd y ffordd y mae'r Bil hwn wedi'i ddrafftio."*<sup>8</sup>

**17.** Gwnaethom gytuno i'r canlynol:

---

<sup>4</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 11.1 a 11.2

<sup>5</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

<sup>6</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.1

<sup>7</sup> [Cyfarfod Llawn, 15 Chwefror 2023](#) a [Cyfarfod Llawn, 5 Hydref 2021](#)

<sup>8</sup> [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#), paragraff 38

- Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei barn ar y berthynas rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel, yng ngoleuni'r ffaith bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad ar gyfer y rhiant-ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer gweithredu'r Cytundeb hwn.
- Ysgrifennu at Bwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi yn dweud ein bod yn ceisio gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ac y byddwn yn rhannu ein canfyddiadau maes o law.
- Tynnu sylw'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y cytundeb er gwybodaeth, ac anfon copi o'r ohebiaeth a ddisgrifir uchod at y ddau bwyllgor.

### **Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeledd a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill**

**18.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 21 Mehefin 2023, ar ôl cael ei lofnodi ar 15 Mai 2019. Ei derfyn amser ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 7 Medi 2023.

**19.** Mae'r Confensiwn hwn, a gaiff ei adnabod hefyd fel "Confensiwn Saint-Denis", yn gonfensiwn Cyngor Ewrop, y mae'r DU yn un o'r aelodau a'i sefydlodd. Mae'r Confensiwn yn gosod dyletswyddau ar Bartion i baratoi a defnyddio dull integredig a chytbwys at faterion diogelwch, diogeledd a gwasanaethau mewn perthynas â gemau pêl-droed a digwyddiadau chwaraeon eraill, gyda'r nod o ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar yn y digwyddiadau hyn.<sup>9</sup>

**20.** Cafodd y Confensiwn ei fabwysiadu yn 2016 ac mae'n ymdrin ag agweddau megis cydlynu trefniadau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys ar gyfer asiantaethau preifat a chyhoeddus, cynlluniau argyfwng amlasiantaethol, ac ar gyfer ymgorffori polisiau a gweithdrefnau clir ar ddefnydd o eitemau pyrotechnegol, ymddygiad treisgar neu ymddygiad gwaharddedig arall ac ymddygiad hiliol neu wahaniaethol arall mewn stadia.

**21.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau nad oes angen deddfwriaeth newydd er mwyn rhoi gofynion y Confensiwn ar waith, gan fod

---

<sup>9</sup> [Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddull Integredig o ran Diogelwch, Diogeledd a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill, Mehefin 2023](#), paragraffau 2.1 a 2.2, tudalen 1

deddfwriaeth bresennol<sup>10</sup> yn bodloni gofynion y Confensiwn, ac yn rhestru deddfwriaeth berthnasol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae 15 o gyfreithiau sy'n gymwys i Gymru.<sup>11</sup>

**22.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Confensiwn yn ymwneud â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl ac yr ymgynghorwyd â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ynghylch drafftio'r Confensiwn a pharatoi'r Memorandwm Esboniadol.<sup>12</sup>

**23.** Mae Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2022-2030 yn nodi ei phrif amcanion ar gyfer denu a chefnogi digwyddiadau mawr, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, a sut mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflawni'r rhain. Mae'r strategaeth yn rhestru nifer o ddigwyddiadau mawr a gynhelir yng Nghymru sy'n helpu i gyflawni ei huchelgais i "serennu ar lwyfan y byd".<sup>13</sup>

**24.** Cytunwyd i dynnu sylw'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at y cytundeb pe bai'n dymuno ceisio rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

---

<sup>10</sup> Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Deddf Plismona a Throseddau 2009 a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014.

<sup>11</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2.1, tudalen 3

<sup>12</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.1

<sup>13</sup> Strategaeth Ddigwyddiadau Cenedlaethol Cymru 2022 i 2030, Mehefin 2022

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Mark,

**Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth gan y Ddwy Ochr o Gymwysterau Proffesiynol**

Byddwch yn gwybod mai'r **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar **10 Gorffennaf 2023**, gwnaethom ystyried y DU/y Swistir: Cytundeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol yn y DU a'r Swistir.

Mae'r cytundeb yn ymwneud â gofynion rheoleiddio ar gyfer cymwysterau proffesiynol, y mae rhai agweddau arnynt wedi'u datganoli i Gymru. Ar y sail honno, deallwn fod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb a'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi, a chrosawn yr ymgysylltiad hwn â'r llywodraethau datganoledig.

Gwyddom fod *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022* (Deddf 2022) yn cynnwys pwerau y gellir eu defnyddio gan Weinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig i roi cytundebau cydnabod rhyngwladol ar waith ac felly y gellir eu defnyddio i roi'r cytundeb hwn ar waith. Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad i Ddeddf 2022 ar ddau achlysur, ar ôl ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar y berthynas, os o gwbl, rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel, gan gofio bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad ar gyfer y rhiant-ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer gweithredu'r cytundeb hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 11 Awst 2023.

Yn gywir

*Huw Irranca-Davies*

Huw Irranca-Davies  
Cadeirydd



Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru

[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

07 Awst 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf ynghylch Cytundeb y DU-Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol.

Dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i ddod i gytundeb rhyngwladol sy'n rhwymo'r DU gyfan, gan nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i datganoli, yn unol â pharagraff 10(1) o atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae gan y Senedd y pŵer i basio cyfreithiau sy'n ymwneud â chadw a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, gan fod paragraff 10(3) o atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn eithrio'r swyddogaethau hyn o'r elfennau nas datganolwyd ym mharagraff 10(1).

Mae hyn yn golygu bod buddiannau cyfreithlon a hanfodol gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn amodau a phrosesau negodi unrhyw gytundebau rhyngwladol sy'n galw am weithredu mewn meysydd datganoledig.

Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i wrthwynebu'r syniad o gynnwys pwerau cydredol megis y rhai yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022. Mae safbwynt Llywodraeth y DU o ran cymryd y pwerau hyn yn gwbl amhriodol ac yn amharchu egwyddor datganoli.

Ni roddodd y Senedd ei chydysniad i Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol. Fodd bynnag, Gweinidogion Cymru sydd â'r swyddogaethau gweithredol perthnasol bellach. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau, felly, i wneud deddfwriaeth o dan y Ddeddf i weithredu honno

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 62**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a Chytundeb y DU-Swistir ar Gydnabod Cymwysterau Proffesiynol mewn perthynas â  
Chymru, a byddant yn cyflawni'r swyddogaethau hynny yn gyfrifol.

Dymuniadau gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**

# Eitem 2.12

**Pwyllgor yr Economi,  
Masnach a Materion Gwledig**

—  
**Economy, Trade and  
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddEconomi@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddEconomi  
0300 200 6565

—  
**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddEconomy@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddEconomy  
0300 200 6565

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Vaughan

Yn ddiweddar, aeth y Pwyllgor ar ymweliad i Ynys Môn. Fel rhan o'r ymweliad hwn, clywsom am yr effaith y mae cau arhosfan gorffwys Road King i gerbydau nwyddau trwm wedi'i chael ar Ynys Môn. Clywodd yr aelodau am yr effaith y mae cau'r arhosfan wedi'i chael ar yrwyr, yn sgil y gostyngiad sylweddol mewn gwasanaethau iddynt ar yr ynys, ac ar y gymuned gan fod gyrwyr yn gorfod parcio yn unrhyw le y gallant ddod o hyd i le.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion ynghylch darparu cyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yng Nghymru. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd y Llywodraeth o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor – Cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg







Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

22 Awst 2023

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr at Weinidog yr Economi ar 21 Gorffennaf ynghylch darparu cyfleusterau ar gyfer gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) yng Nghymru. Rwy'n ymateb oherwydd fy nghyfrifoldebau portffolio.

Fel menter fasnachol, penderfynodd Roadking nad oedd eu busnes ar Barc Cybi bellach yn hyfyw, a oedd yn siomedig. Mae gwerthu'r safle wedi hynny i CThEF wedi creu pryderon mawr ynghylch parcio lorïau Cerbydau Nwyddau Trwm yng Nghaergybi ac mae Llywodraeth Cymru, heb ragfarnu, wedi gweithredu maes parcio Cerbydau Nwyddau Trwm dros dro ar safle Plot 9 ym Mharc Cybi, a adeiladwyd yn wreiddiol fel man parcio wrth gefn i helpu i reoli materion sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Chyngor Ynys Môn ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gydag awdurdodau lleol i archwilio opsiynau i geisio mynd i'r afael â/datrys y mater i'r rhai yn yr ardal ar gyfer cyfleusterau gorffwys i Gerbydau Nwyddau Trwm. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfleusterau o'r fath (ardaloedd gorffwys) ar gyfer gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, ond cydnabyddir bod angen gwella cyfleusterau a darpariaethau ar gyfer rôl a rhan mor hanfodol o economi Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud ymrwymiad fel y nodir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS), i ddatblygu Cynllun Cludo Llwythi a Logisteg newydd i Gymru. Bydd argymhellion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwnnw.

Bydd casglu data i ddeall yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant yn rhan allweddol o'r gwaith ac fel yr amlinellir yn ein hymatebion i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig rydym yn bwriadu cynnal archwiliad o gyfleusterau gorffwys ar gyfer gyrwyr.

Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd yr Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023. Argymhellodd fwrw ymlaen â'r Cynllun Cludo Llwythi a Logisteg ond roedd hefyd yn argymhell ymgysylltu mwy gweithredol â'r diwydiant cludo llwythi, yn enwedig o ran adnabod problemau. Nododd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lee.Waters@gov.wales](mailto:Correspondence.Lee.Waters@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yr adolygiad y dylid rhoi mwy o sylw i bryderon y sector cludo nwyddau ar y ffyrdd mewn perthynas â darparu cilfannau, cyfleusterau parcio ac ardaloedd gorffwys addas ar gyfer gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant ac mae'n ymwneud yn weithredol â'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd (RHA) a Logistics UK. Mae'r ddau sefydliad a'u haelodau yn awyddus i gyfrannu at y cynllun, y bydd fy swyddogion yn ei ddatblygu yn ddiweddarach eleni.

Rydym yn cefnogi gyrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm ar hyn o bryd drwy ein rhaglen ReAct+, sy'n gallu darparu grant hyfforddiant galwedigaethol o hyd at £1500 i unigolion. Gellir defnyddio'r grant i helpu gyda chaffael trwyddedau lorïau a chymwysterau cysylltiedig fel y Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer Gyrwyr (DCPC). Gellir defnyddio'r grant hefyd i ariannu hyfforddiant diweddarau i yrwyr lorïau sy'n dymuno ailymuno â'r sector a darparu cyfraniad tuag at gyflogau i gyflogwyr yn y sector preifat sy'n recriwtio gweithiwr cymwys.

Mae ein rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) yn darparu cyrsiau a chymwysterau am ddim i helpu pobl gyflogedig i uwchsgilio neu ailsgilio i sectorau blaenoriaeth i wella eu rhagolygon o ran gyrfa ac enillion. Dyrannwyd cyllid PLA ychwanegol o £10m i fynd i'r afael â phrinder o ran gweithlu a sgiliau allweddol, gyda mwy na £3 miliwn ohono wedi'i dargedu at hyfforddi dros 850 o yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm. Rydym hefyd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i hyrwyddo gyrru Cerbydau Nwyddau Trwm fel gyrfa.

Mae Prentisiaethau Gyrru Cerbydau Nwyddau yn darparu gwybodaeth a chymwysterau i staff y diwydiant cludiant ar y ffyrdd i gefnogi llwybr gyrfa yn y diwydiant drwy ategu hyfforddiant Cerbydau Nwyddau Trwm. Er enghraifft, darparu hyfforddiant ar gynnal integreidd llwythi a cherbydau drwy ddefnyddio gweithdrefnau cywir ar gyfer ataliaeth, ffyrdd, iechyd a diogelwch gan gynnwys morgludiant, symudiadau, mewnforio / allforio, cludo llwythi, nwyddau peryglus a bwyd. Mae cyflogwyr cludwyr o Gymru hefyd yn gallu manteisio ar y rhaglen brentisiaethau i hyfforddi ac uwchsgilio technegwyr cerbydau i gadw eu fflyd ar y ffordd – angen y mae'r RHA wedi tynnu sylw ato'n ddiweddar.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym yn awgrymu prinder o tua 50,000 - 60,000 o yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm, sydd wedi gostwng o dros 100,000 yn ystod y pandemig, sy'n dangos rhywfaint o effaith gadarnhaol y mae'r cynlluniau hyn wedi'i chael ar brinder gyrwyr.

Yn y tymor hwy, mae cyfle i wrthdroi'r problemau sydd wedi bod yn datblygu yn y diwydiant dros nifer o flynyddoedd ac i greu sector mwy cynaliadwy a gwydn sy'n cynnig cyflog ac amodau gwaith tecach i yrwyr.

Bydd unrhyw fuddsoddiad yn y diwydiant yn y dyfodol yn amodol ar argaeledd cyllid o'n setliad cyllideb blynyddol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Deputy Minister for Climate Change

Tudalen y pecyn 66

Mr William Wragg AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Tŷ'r Cyffredin

11 Awst 2023

## Ymchwiliad PACAC: Gallu Datganoli yn Whitehall

Annwyl Gyfaill

Rwy'n ysgrifennu yn rhinwedd fy rôl fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd i ymateb i ymchwiliad presennol y Pwyllgor ynghylch Gallu Datganoli yn Whitehall. Yn benodol, roeddwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol rhannu â'ch Pwyllgor safbwynt ynghylch ein hymgysylltu â Gweinidogion y DU a gweision sifil ar faterion o fewn cylch gwaith ein Pwyllgor.

Rôl y Pwyllgor yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Ond mae adegau lle mae craffu ar gyfrifoldebau datganoledig yn gofyn am archwilio materion a gedwir yn ôl, neu lle dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod yn cydweithio'n agos, a lle mae'r penderfyniadau a wneir a chyfeiriad a chyflymder y broses o lunio polisiau ar lefel y DU yn berthnasol i'n gwaith ni. Mae enghreifftiau yn cynnwys: cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE; ymchwil ac arloesi; cefnogaeth amaethyddol; gweithredu Fframweithiau Cyffredin; polisi masnach; safleoedd rheoli'r ffiniau a phorthladdoedd rhydd; Bargeinion Dinesig a Thwf a buddsoddi rhanbarthol yn fwy cyffredinol; ac iechyd a lles anifeiliaid. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Ar adegau o'r fath mae'n ddefnyddiol nid yn unig ceisio atebion gan Lywodraeth Cymru ond hefyd gwybodaeth a safbwyntiau gan Weinidogion y DU, a/neu sesiwn frifio gan swyddogion Llywodraeth y DU. Yn hanesyddol, nid ydym wedi cael llawer o lwyddiant gyda dulliau o'r fath, problem sy'n gyffredin ar draws Pwyllgorau'r Senedd.



Yn 2021 ysgrifennais at Paul Scully AS, y Gweinidog dros Fusnesau Bach, Defnyddwyr a Marchnadoedd Llafur yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ynghylch y broses datblygu polisi mewn perthynas â'r Bil Rheoli Cymorthdaliadau, yr oedd y Pwyllgor wedi cyhoeddi **adroddiad** cydsyniad deddfwriaethol yn ei gylch. Ni chafwyd ymateb i'r llythyr hwnnw. Fodd bynnag, rydym wedi ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol ag un o adrannau anweinidogol y llywodraeth, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, sy'n gweithredu'r Uned Cyngor ar Gymorthdaliadau, yn ogystal â chorff cyhoeddus anadrannol, yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, sydd wedi cyfarfod â swyddogion y pwyllgor a minnau, ac sydd hefyd yn cynnig amrywiaeth o gymorth ar gyfer ein gwaith.

Ym mis Mai 2022 **ysgrifennodd y Pwyllgor at Weinidog Trafnidiaeth y DU**, Grant Shapps AS, yn gofyn am eglurhad ynghylch cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli a'r rhai a gadwyd yn ôl ar gyfer ariannu gwelliannau mawr eu hangen i gyfleusterau man gorffwys i yrwyr cerbydau newyddau trwm. Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad i'r **Diffyg gyrwyr cerbydau newyddau trwm a phroblemau â'r gadwyn gyflenwi**. Bu'r Pwyllgor hefyd yn gohebu â Gweinidogion Cymru, a roddodd rywfaint o eglurhad, ond ni chafwyd ateb erioed gan Weinidog Trafnidiaeth y DU.

Eleni, er i'r Pwyllgor gysylltu sawl gwaith drwy sianeli gwahanol ers mis Mawrth, roeddem yn siomedig nad oeddem yn gallu cael tystiolaeth lafar gan unrhyw un o Weinidogion na Dirprwy Weinidogion y DU ar yr agenda Ffyniant Bro a datblygiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yr oedi o ran cael **tystiolaeth ysgrifenedig** gyfyngedig gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn dilyn hynny ym mis Mehefin yn golygu nad oedd modd archwilio materion pwysig sy'n codi o'r ymchwiliad hwn.

I'r gwrthwyneb, roeddwn yn falch yn ddiweddar o gael ymateb prydlon a chadarnhaol i gais am un o Weinidogion Swyddfa'r Cabinet i drafod datblygiad Safleoedd Rheoli Ffiniau a'r Model Gweithredu Targed gyda ni, o ystyried bod masnach drwy borthladdoedd Cymru yn fater mor hollbwysig. Er nad ydym, ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, wedi sicrhau dyddiad ar gyfer trafodaeth, mae parodrwydd y Farwnes Neville-Rolfe i ymgysylltu â'm Pwyllgor a bod yn hyblyg ynghylch dyddiadau i'w groesawu'n fawr.

Yn ystod sesiynau craffu cyffredinol gyda Gweinidogion Cymru a'u swyddogion, mae Aelodau'n holi'n rheolaidd am waith ymgysylltu â Gweinidogion a swyddogion y DU ar faterion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar economi Cymru. Mewn llawer o achosion mae Gweinidogion Cymru yn nodi eu bod yn ymgysylltu'n agos ac yn adeiladol â Gweinidogion cyfatebol a rhwng swyddogion. Ond gall problemau godi, er enghraifft pan nad yw gwaith ymgysylltu a rhannu gwybodaeth yn amserol neu'n digwydd o gwbl, neu pan na fydd data ar lefel Cymru ar gael, e.e. i ganiatáu i Lywodraeth Cymru werthuso'n llawn yr effaith y byddai cytundebau masnach ar ôl gadael yr UE yn ei chael ar Gymru.

Tynnwyd sylw at y broses o ddatblygu Porthladdoedd Rhydd yn ddiweddar fel enghraifft o ymgysylltu adeiladol da, ond nid yw'n ymddangos bod hon yn sefyllfa gyson ar draws yr holl feysydd polisi ac



adrannau yn Whitehall. Bydd unrhyw ddiffyg dealltwriaeth yn Whitehall o'r cyd-destun yng Nghymru, a phwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â'r gweinyddiaethau datganoledig, yn niweidiol o ran sicrhau proses gadarn ar gyfer datblygu a gweithredu polisiau. Mae'r gwaith o gynllunio a chyflwyno rhaglenni ariannu ar ôl gadael yr UE yn enghraifft amlwg, a bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad yn amlinellu ei bryderon.

Diolch am y cyfle i ymgysylltu â'ch ymchwiliad pwysig. Edrychwn ymlaen at adolygu eich canfyddiadau ac ymateb Llywodraeth y DU iddynt.

Cofion cynnes,



**Paul Davies AS**

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Annwyl Mr Davies,

Ym mis Mawrth eleni, fe wnaethom ni – sampl cynrychioliadol demograffig o 103 o ddinasyddion y DU – gyhoeddi ein 'Cynllun Natur y Bobl', a gafodd ei greu drwy gynulliad dinasyddion. Gallwch ddarllen adroddiad llawn y cynllun a'r broses [yma](#) neu ceir crynodeb ohono [yma](#).

Yn gryno, ar ôl clywed gan academyddion, ffermwyr, ecolegwyr, y diwydiant pysgota, archfarchnadoedd, grwpiau cymunedol ac elusennau ac ymgynghori am 36 awr, fe wnaethom greu 26 o Alwadau i Weithredu i'w gwneud gan lywodraethau, busnesau, cyrff anlywodraethol a chymunedau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

**Rydym yn ysgrifennu atoch yn awr fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn y Senedd i ofyn i'r pwyllgor archwilio ac ymateb i'r cynllun.** Mae llawer o'r camau gweithredu yn y cynllun yn targedu Llywodraethau Cenedlaethol – credwn, felly, fod ymatebion arweinwyr gwleidyddol yn hanfodol.

Mae hwn yn wahoddiad i fyfyrion ar ein Galwadau i Weithredu, ac i fanteisio ar y cyfle i rannu eich safbwynt arnynt, yn ogystal â'ch gweledigaeth a'ch ymrwymiad i gydweithio i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Mae rhywfaint o ganllawiau ar sut i ymateb ar gael [yma](#), ond hoffem i ymatebion ganolbwyntio ar weithredu, gydag amserlenni clir a sut rydych chi'n bwriadu ymgorffori atebolrwydd yn eich cynlluniau.

# Cynllun Natur Y Bobl

## People's Plan For Nature

Er gwaethaf y bygythiad difrifol i'n hanghenion dynol sylfaenol – ein diogelwch bwyd, ein lles, ein mynediad at aer a dŵr glân – nid yw'r ymateb i'r argyfwng natur yn y DU wedi cyrraedd graddfa'r her. Felly, er bod rheoliadau, fframweithiau ac ymdrechion hirsefydlog ar waith, y canlyniad yw nad ydym yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r bygythiadau sy'n wynebu byd natur. Mae hon yn alwad gan ddinasyddion y DU i newid hynny.

Fe wnaethom ddysgu yn ystod Cynulliad Natur y Bobl bod cyfleoedd i ddiogelu ac adnewyddu byd natur – bod yr adnoddau sydd eu hangen arnom yn bodoli. Dim ond angen eu defnyddio sydd. Mae ein Galwadau i Weithredu wedi cael eu datblygu gan drawstoriad o bobl o bob cefndir, ac o'r herwydd, maent yn bragmatig a gallent fod yn boblogaidd iawn. Mae eich ymateb didwyll i'n Cynllun yn hanfodol i barhau â'r sgwrs hon ac i ddod ag egni newydd i'r frwydr hon – y bwysicaf yn ein bywydau. Rydyn ni'n bwriadu ailgynnull y cynulliad yng ngwanwyn 2024 er mwyn adolygu'r ymateb i Gynllun Natur y Bobl ac asesu cynnydd – byddem wrth ein bodd pe bai eich ymateb yn rhan o hyn.

Anfonwch eich ymateb at [hello.peoplesplanfornature.org](https://hello.peoplesplanfornature.org) – a byddem wrth ein bodd yn trafod Cynllun Natur y Bobl gyda chi ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Yn gywir,

Cynulliad Natur y Bobl

Dear Mr Davies,

In March this year, we – a demographically representative sample of 103 UK citizens – published our 'People's Plan for Nature', created through a citizen's assembly. You can read the full report of the plan and the process [here](#) or a summarised version [here](#).

In short, after hearing from academics, farmers, ecologists, the fishing industry, supermarkets, community groups and charities and deliberating for 36 hours, we created 26 Calls to Action for governments, businesses, NGOs and communities to take to address the nature crisis.

**We are writing to you now as Chair of the Senedd Economy, Trade and Rural Affairs Committee to ask that the committee examines and responds to the plan.** Many of the actions in the plan are targeted at National Governments – we believe, therefore, that the responses of political leaders are crucial. This is an invitation to reflect upon our Calls to Action, and to take the opportunity to share your stance on them, as well as your vision and commitment to working together in addressing the nature crisis.

Some guidance on how to respond is available [here](#), but we'd really like responses to be action-focused, with clear timelines and how you intend to build accountability into your plans.

In spite of the serious threat it poses to our basic human needs – our food security, our wellbeing, our access to clean air and water – the response to the nature crisis in the UK has not met the scale of the challenge.



So while there are long-standing regulations, frameworks and efforts in place, the result is that we are simply not doing enough to tackle the threats facing nature. This is a call from UK citizens to change that.

We learned over the course of the People's Assembly for Nature that there are opportunities to protect and renew nature – that the tools we need exist. They just need to be used. Our Calls to Action have been developed by a cross-section of people from all walks of life, and as such, are pragmatic and potentially widely popular. Your authentic response to our Plan is vital in continuing this conversation and to bring renewed energy to this, the fight of our lives. We are planning to reconvene the assembly in Spring 2024 to review the response to the People's Plan for Nature and assess progress – we'd love for your response to be part of this.

Please send your response to [hello@peoplesplanfornature.org](mailto:hello@peoplesplanfornature.org) – and we'd be delighted to discuss the People's Plan for Nature more with you at your convenience.

Yours,

The People's Assembly for Nature

Cynulliad Natur y Bobl

25 Awst 2023

## Cynllun Natur y Bobl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Awst, a anfonwyd ataf fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, yn gofyn am ymateb i Gynllun Natur y Bobl.

Rôl y Pwyllgor yw craffu ar bolisiau Llywodraeth Cymru a'i dwyn i gyfrif. Yn ystod y gwaith craffu hwnnw, mae'r Pwyllgor yn ystyried sut y mae polisiau Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argyfwng natur y gwnaeth y Senedd ei ddatgan ar 30 Mehefin 2021, a chyflawni'r nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys ein gwaith craffu deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), sef Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 bellach, wrth iddo fynd drwy'r Senedd. Trafodom sut y gall ei hegwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy sicrhau cydnherthedd economaidd cymunedau ffermio Cymru, cynorthwyo adferiad byd natur a diogelu bioamrywiaeth. Buom yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y sefydliadau hynny sy'n pweru Cynllun Natur y Bobl, a buom yn gweithio mewn partneriaeth agos ag aelodau o Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Mae ein hargymhellion ar egwyddorion cyffredinol y Bil i'w gweld ar ein gwefan. Yn benodol, roedd Argymhelliad 7 yn gwahodd y Gweinidog i ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ar newidiadau i eiriad yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, ac roedd Argymhelliad 8 yn gofyn i'r Gweinidog ystyried cynnwys adferiad byd natur yn fwy penodol yng ngeiriad y Bil. Roedd Argymhelliad 12 yn gofyn am ei gwneud yn gliriach nad oes hierarchaeth i'r amcanion, a'u cysylltu'n agosach â geiriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am fwy o eglurder ynghylch bwriadau'r Gweinidog o ran Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r llinell sylfaen reoleiddiol ar gyfer y sector amaethyddol (Argymhelliad 4). Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn nodi ei safbwynt ar bob un o'r argymhellion.



Bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar Fil Bwyd (Cymru). Ni dderbyniwyd egwyddorion cyffredinol y Bil Aelod hwn gan y Senedd, ond serch hynny, gwnaeth y Pwyllgor **argymhellion** cryf i Lywodraeth Cymru ar ei dull gweithredu ym maes polisi a strategaeth bwyd cenedlaethol. Yn benodol, galwodd Argymhelliad 2 ar Lywodraeth Cymru i wella ei dull o ymdrin â'r system fwyd drwy sicrhau bod polisiâu'n gydgyssylltiedig ac yn cyd-fynd, a galwodd Argymhelliad 8 am fwrdd polisi bwyd mewnol neu weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu swydd systemau bwyd bwrpasol i lywio polisi bwyd cydgyssylltiedig yng Nghymru. Mae hyn gyda'r dyhead o ddarparu "bwyd fforddiadwy ac iach sy'n economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl nawr ac yn y dyfodol". **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad ym mis Mai 2023.

Yn ein sesiynau craffu cyffredinol gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, rydym yn holi cwestiynau'n rheolaidd am faterion a godwyd gan Gynllun Natur y Bobl, gan gynnwys cwestiynau ynghylch cynhyrchu a bwyta bwyd, ffermio er lles natur, pysgodfeydd a diogelu dyfrffyrdd rhag llygredd amaethyddiaeth. Rydym yn ystyried datblygu cynaliadwy yn ei gyfanrwydd fel rhan o'n gwaith, gan gynnwys yn ein sesiynau craffu blynyddol ar y gyllideb, lle mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 unwaith eto yn cael lle amlwg.

Mae ein gwaith ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd diweddar yn Sioe Frenhinol Cymru. Ers ei sefydlu yn 2021, mae'r Pwyllgor wedi ymweld â nifer o ffermydd, gan gynnwys un sy'n cael ei rhedeg gan aelod o'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, ac mae wedi ymweld â champws Gelli Aur yng Ngholeg Sir Gâr i weld datblygiadau technolegol i leihau llygredd amaethyddol.

Un o gryfderau'r Pwyllgor yw natur drawsbleidiol ei aelodaeth, ac mae'n bwysig ar gyfer gyrru newid yn ei flaen. Mae'r gorgyffwrdd â chylchoedd gwaith Pwyllgorau eraill y Senedd, fel y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, hefyd yn cael ei ystyried wrth gynllunio'r rhaglen waith, ac mae ein hymgyngoriadau yn dryloyw ac yn gyhoeddus gan fod ein gwaith yn dibynnu ar gorff cryf o tystiolaeth.

Cofion cynnes,



**Paul Davies AS**

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

22<sup>nd</sup> August 2023

Mr Paul Davies MS  
Chairman – Economic, Trade & Rural Affairs Committee (ETRA)  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff,  
CF99 1SN

Dear Paul,

## **DEPOSIT RETURN SCHEME (DRS): INCLUSION OF GLASS**

I am writing to you as Chairman of the Economic Trade & Rural Affairs (ETRA) committee with regards to the Wales Deposit Return Scheme (DRS). We are fully committed to a successful launch of this landmark environmental initiative, but we urge the Welsh Government to keep all glass packaging as a kerbside scheme. Wales, as you know, is already a world leading glass recycling nation.

Minimising waste and preventing litter through the promotion of a circular economy is a key priority for our industry. Our members fully support this goal and are very supportive of the introduction of DRS for some time. A consistent message from industry has been to reduce the complexity for businesses and consumers, and for all DRS schemes across the UK to be aligned and interoperable. Our businesses need to understand what is required of them to comply with DRS requirements, and that the scheme is simple, seamless, and incentivising for consumers to engage with.

